**DYDDIEDIG [ ] 2026**

**(1) S4C**

**(2) [ ]**

---

**CYTUNDEB I DDARPARU GWASANAETHAU MYNEDIAD S4C**

---

**CYNNWYS**

**I'W DIWEDDARU CYN CYHOEDDI'R COPI TERFYNOL**


**1. Diffiniadau a Dehongliad**
**2. Y Gwasanaethau**
**2A. Datganiad Technoleg a Meddalwedd**
**3. Safonau Iaith Gymraeg**
**4. Rheolaeth Olygyddol**
**5. Adroddiadau a Chofnodion**
**6. Trefn Gyfathrebu a Chyfarfodydd Adolygu**
**7. Staffio**
**8. Personél Allweddol**
**9. Eiddo Deallusol**
**10. Trwydded i Feddiannu**
**11.Gwarantau**
**12.Materion Ariannol**
**13.Indemniad**
**14. Yswiriant**
**14A. Ardystiad Seiberddiogelwch**
**15.Terfynu**
**16.Canlyniadau Dirwyn i ben neu Derfynu**
**17.Oblygiadau TUPE ar Derfynu**
**18.Oedi a Hawliau Camu i Mewn**
**19.Argyfwng**
**20.Aseinio ac Is-Gontractio**
**21.Force Majeure**
**22.Gwrth-Gyfrif**
**23.Rhybuddion**
**24.Rhwymedïau ac Ildio**
**25.Cyhoeddiadau a Chyfrinachedd**
**26.Diogelu Data a DRhG**
**27.Atal llygredigaeth a Thwyll**
**28.Dehongliad**


**Atodlenni**


**1. Gwasanaethau**
**2. Gwarantau**
**3. Personél Allweddol**
**4. Ffi**
**5. Y Drefn Gyfathrebu**
**6. Cytundeb Cyfrinachedd**
**7. Cynllun Argyfwng**
**8. Diogelu Data**

GWNEIR Y CYTUNDEB HWN y [ ] dydd o [ ] 2026

**RHWNG:**

(1) S4C o Canolfan S4C: Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ ("S4C"); a

(2) [ ] [Rhif y Cwmni: [ ] y mae ei gyfeiriad cofrestredig wedi'i leoli yn [*nodwch y cyfeiriad*] (y "Cwmni")

**RHAGARWEINIAD:**

Yn dilyn cyhoeddiad gan S4C o wahoddiad i dendro er mwyn darparu gwasanaethau mynediad a chyflwyniad gan y Cwmni o dendr, mae S4C yn dymuno ymrwymo i gytundeb gyda'r Cwmni er mwyn darparu'r Gwasanaethau yn unol â'r amodau a thelerau a nodir yn y Cytundeb hwn.

**CYTUNIR** fel a ganlyn:

## 1. Diffiniadau a Dehongliad

Yn y Cytundeb hwn:

1.1 bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

| | |
|---|---|
| "Canllawiau Brand S4C" | canllawiau brand S4C sydd i'w cael ar wefan gynhyrchu S4C yma: https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/1154/canllawiau/; |
| "Chwarter" | cyfnod o 3 mis calendr yn gorffen ar 30 Mehefin, 30 Medi, 31 Rhagfyr neu 31 Mawrth mewn unrhyw flwyddyn galendr o ddyddiad y Cytundeb hwn; |
| "Cwmni Olynol" | pob cwmni a fydd yn darparu unrhyw wasanaeth sydd yn cyfateb â'r Gwasanaethau, ar ôl i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu ar ôl terfynu'r Cytundeb hwn; |
| "Cwmni Teulu" | unrhyw is-gwmni neu gwmni dal o dro i dro ac unrhyw is-gwmni o'r cyfryw gwmni dal o dro i dro (fel y diffinnir 'cwmni dal' ac 'is-gwmni' yn adrannau 1159 Deddf Cwmnïau 2006); |
| "Cyber Essentials" | y cynllun ardystio a gefnogir gan y llywodraeth a argymhellir gan Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU fel y safon isafswm seiberddiogelwch ar gyfer pob sefydliad, sy'n cynnwys pum rheolaeth: waliau tân (amddiffyn ffiniau), cyfluniad diogel, rheoli diweddariadau diogelwch, rheoli mynediad defnyddwyr, ac amddiffyn malware; |
| "Cyflogedigion Perthnasol" | y cyflogedigion hynny sydd yn cael eu haseinio (fel y caiff y term "aseinio" ei ddiffinio yn TUPE) i ddarparu'r Gwasanaethau yn union cyn i'r Cytundeb hwn ddod i ben neu gael ei derfynu, y |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | bydd eu cyflogaeth yn cael ei drosglwyddo i Gwmni Olynol yn unol â TUPE; |
| "Cyfreithiau Diogelu Data" | (i) Deddf Diogelu Data 2018 a'r GDPR DU ac unrhyw gyfreithiau, rheoliadau a deddfwriaeth eilaidd gweithredu cenedlaethol, fel y'u hamrywir neu y'u diwygir o bryd i'w gilydd, yn y DU; ac yna (ii) unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r GDPR DU neu Ddeddf Diogelu Data 2018; ac (iii) unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data newydd cenedlaethol; |
| "Cyfreithiau Perthnasol" | yr holl gyfreithiau, rheolau, rheoliadau a safonau rhanbarthol, cenedlaethol neu ryngwladol gan gynnwys y rhai a weithredir gan unrhyw lywodraeth neu awdurdod rheoleiddio, a holl safonau a chanllawiau arfer perthnasol y diwydiant a bennir gan unrhyw gorff hunanreoleiddiol sydd yn berthnasol o bryd i'w gilydd i ddarparu'r Gwasanaethau, gan gynnwys heb gyfyngiad y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| "Cynllun Argyfwng" | cynllun argyfwng y Cwmni a nodir yn Atodlen 7; |
| "Cynnyrch y Gwasanaethau" | holl gynhyrchion y Gwasanaethau sydd yn cael eu creu, eu caffael neu eu datblygu gan neu ar ran y Cwmni a'r Staff wrth ddarparu'r Gwasanaethau gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i, y Deunydd Cyfleu, unrhyw gyfieithiadau o isdeitlau, unrhyw sgriptiau, nodiadau, adroddiadau, cronfeydd data, ffurflenni ac ystadegau *[i'w gwblhau]*; |
| "Cynrychiolydd S4C" | Meleri Wyn Flint neu unrhyw bersonau eraill o'r fath a hysbysir gan S4C i'r Cwmni yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor; |
| "Cytundeb" | y cytundeb hwn gan gynnwys y Rhagarweiniad ac unrhyw ddogfen y cyfeirir ati yn y cytundeb hwn, wedi ei chwblhau neu i'w chwblhau yn unol â'i delerau; |
| "Data Personol" | mae ganddo'r ystyr a roddir i'r term yn y Cyfreithiau Diogelu Data; |
| "Deddf" | Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988 fel y'i amrywir; |
| "Deunydd Cyfleu" | y deunydd cyfleu a nodir yn Atodlen 1 ac sydd i'w cyfleu i S4C yn unol â'r Polisïau; |
| "Diwrnod Gwaith" | unrhyw ddiwrnod ar wahân i ddydd Sadwrn, dydd Sul neu wyliau cyhoeddus yng Nghymru; |
| "DRhG" | Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; |
| "Dyddiad Cychwyn" | [*nodwch y dyddiad pan ddaw y telerau hyn i rym*] |

DRAFT

| | |
|---|---|
| "Dyddiad Terfynu" | y dyddiad pan ddaw y Cytundeb hwn i ben sut bynnag y bo hynny'n digwydd; |
| "Eiddo Deallusol" | ar y cyd, unrhyw a'r holl hawliau eiddo deallusol yng Nghynnyrch y Gwasanaethau, neu sydd yn ymwneud â Chynnyrch y Gwasanaethau, gan gynnwys dyfeisiadau, patentau, dyluniadau cofrestredig, nodau masnach (boed wedi neu heb eu cofrestru), ceisiadau am unrhyw rai o'r uchod a'r hawl i wneud cais amdanynt yn unrhyw ran o'r byd; hawlfreintiau, hawliau sydd yn ymdebygu i hawlfraint neu'n cynnig amddiffyniad cyfatebol i hawlfraint, hawliau moesol, hawliau dyluniad, hawliau bas ddata; enwau gwefannau, enwau masnach, logos, ffurf gan gynnwys edrychiad a naws y cynnwys; medrau cyfrin, cyfrinachau masnach a gwybodaeth gyfrinachol arall; hawliau o natur hawliau atal cystadleuaeth annheg a'r hawl i ddwyn achos am beri coel; trwyddedau, cydsyniadau, caniatâd ac ildiadau mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod; a'r cyfan neu unrhyw hawliau tebyg neu gyfatebol sydd yn codi neu sydd yn bodoli mewn unrhyw wlad yn y byd; |
| "Ffi" | y ffi bob awr am y Gwasanaethau sef [*£nodwch y ffi*] neu [fel y nodir yn Atodlen 4]; |
| "GDPR DU" | Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol DU; |
| "Gofynion Cyfleu" | y gofynion cyfleu ar gyfer y Deunydd Cyfleu fel a nodir yn Atodlen 1; |
| "Gwarantau" | y gosodiadau a gwarantau a bennir yn Atodlen 2; a dehonglir y term 'Gwarant' yn unol â hyn; |
| "Gwasanaethau S4C" | unrhyw sianel, gwasanaeth teledu, gwefan, 'ap' ffôn symudol neu blatfform arall ar gyfer gwneud deunydd ar gael i'r cyhoedd (boed yn hysbys nawr neu a ddyfeisir wedi hyn) sydd yn berchen i neu a ddarperir gan, ar ran, neu gyda chaniatâd S4C o dro i dro yn ystod y Tymor gan gynnwys heb gyfyngiad S4C, gwefan S4C www.s4c.cymru, unrhyw 'ap' ffôn symudol o dan frand S4C, y gwasanaeth fideo ar-alw y'i gelwir 'Clic' a gwasanaeth ar-lein S4C a wneir ar gael trwy wasanaeth iPlayer y BBC; |
| "Gwasanaethau" | [y Gwasanaethau Isdeitlo, y Gwasanaethau Sain Ddisgrifio a'r Gwasanaethau Arwyddeg Ar y Sgrin] a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir gan y Cwmni o dan y Cytundeb hwn; |
| "Gwasanaethau Arwyddeg Ar y Sgrin" | y gwasanaethau a nodir yn Rhan C Atodlen 1; |
| "Gwasanaethau Isdeitlo" | y gwasanaethau a nodir yn Rhan A Atodlen 1; |

DRAFT

| | |
|---|---|
| "Gwasanaethau Sain Ddisgrifio" | y gwasanaethau a nodir yn Rhan B Atodlen 1; |
| "Gwasanaeth Newydd S4C" | unrhyw sianel, gwasanaeth teledu, gwefan, "ap" neu unrhyw fodd arall o gyfathrebu a'r cyhoedd boed wedi ei ddyfeisio yn bresennol neu beidio (oni bai am Wasanaethau S4C) a sefydlwyd wedi dyddiad y cytundeb hwn y mae S4C neu unrhyw Gwmni Teulu S4C yn berchen arno yn gyfan gwbl neu'n bennaf; |
| "Gwybodaeth Gyfrinachol S4C" | ar y cyd, unrhyw a'r holl wybodaeth, data a medrau cyfrin o natur gyfrinachol (ym mha bynnag ffurf ac ar ba bynnag gyfrwng) sydd yn berthnasol i Eiddo Deallusol a/neu fusnes S4C a/neu ei Chwmnïau Teulu sydd yn cael eu datgelu neu eu gwneud ar gael at ddibenion neu a gynhyrchir o dan y Cytundeb hwn a boed cyn, ar neu wedi Dyddiad Cychwyn y Cytundeb hwn, gan gynnwys heb gyfyngiad manylion cyflenwyr S4C a pherthynas S4C â nhw, manylion unrhyw drefniadau busnes, polisi, golygyddol neu ariannol S4C, copïau o raglenni, sgriptiau a manylion eraill rhaglenni S4C, amserlenni S4C, trefniadau ac arferion gwaith S4C, trafodaethau mewn perthynas â'r Rhaglenni Perthnasol ac/neu Wasanaethau S4C, ynghyd â bodolaeth neu gynnwys y Cytundeb ac/neu unrhyw wybodaeth sydd wedi ei ddynodi'n gyfrinachol gan S4C yn ysgrifenedig neu a ddylid ei ystyried yn gyfrinachol ac/neu unrhyw Ddata Personol; ac unrhyw wybodaeth cyfrinachol arall y BBC; |
| "Hysbysiad Cydymffurfio S4C" | Hysbysiad Cydymffurfio S4C a gynhwysir ar wefan Awdurdod S4C; |
| "Llyffetheiriau" | unrhyw a phob lien, gwystl, morgais, ernes, ecwiti a llyffethair sydd yn gwarantu unrhyw ddyletswydd ar ran unrhyw berson, trefniadau blaenoriaethol (gan gynnwys trefniadau cadw teitl) a hawliau, buddiannau a hawliadau eraill o ba bynnag natur; |
| "Ofcom" | y Swyddfa Gyfathrebiadau neu unrhyw olynydd; |
| "Personél Allweddol" | yr unigolion allweddol a gyflogir gan y Cwmni a restrir yn Atodlen 3; |
| "Polisïau" | ar y cyd, holl bolisïau S4C y cyfeirir atynt yn benodol yn y Cytundeb hwn fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd gan gynnwys y polisïau a nodir isod a'r holl bolisïau a chanllawiau eraill a gyhoeddir o dro i dro ar wefan gynhyrchu S4C sef http://www.s4c.cymru/en/production/page/1154/guidelines/;<br><br>Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch;<br>Gofynion Technegol S4C;<br>Polisiau Gwarchod Data a Preifatrwydd S4C;<br>Datganiad o Ymrwymiad i Amrywiaeth S4C; |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Cod Darlledu Ofcom;<br>Canllawiau Iaith Gymraeg S4C;<br>Canllawiau ynglŷn â sut y dylid cyflwyno is-deitlau a gwasanaethau mynediad eraill i S4C;<br>Datganiad Cyflenwyr: Aflonyddu Rhywiol; ac<br>I'r graddau y bo'n berthnasol i'r Gwasanaethau, Hysbysiad Cydymffurfio S4C; |
| "Polisïau Safle" | ar y cyd holl bolisïau S4C sy'n rheoli defnydd Safle S4C a Systemau S4C fel y'u darperir i'r Cwmni o dro i dro yn ystod y Tymor gan gynnwys Polisi Iechyd a Diogelwch a Pholisi Defnydd TG S4C; |
| "Polisïau Yswiriant" | y polisïau a nodir yng nghymal 14; |
| "Prif Ffeiliau" | y prif ffeiliau o'r Rhaglenni Perthnasol ac unrhyw eitemau eraill mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau, ym mha bynnag fformat, a gyflëir gan S4C neu drydydd parti ar ran S4C i'r Cwmni; |
| "Rhaglenni Perthnasol" | y rhaglenni perthnasol fel y'u diffinnir yn unol â'r diffiniad perthnasol ym mhob rhan o Atodlen 1; |
| "Rheoliadau" | Rheoliadau Gwybodaeth am yr Amgylchedd 2004; |
| "Safle S4C" | yr ardaloedd hynny o adeilad y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd fel y'u cytunir gan S4C sy'n angenrheidiol i'r Cwmni i'w defnyddio a chael mynediad iddynt ar gyfer pwrpas darparu elfennau o'r Gwasanaethau; |
| "Staff" | yr holl bersonau a gytundebir gan y Cwmni neu a gyfrannir at y Gwasanaethau, ar sail gyflogedig neu hunangyflogedig, gan gynnwys y Personél Allweddol; |
| "Systemau S4C" | offer a systemau S4C sydd i'w defnyddio gan y Cwmni wrth gyflawni'r Gwasanaethau fel y'u manylir yn yr Atodiad i Atodlen 1; |
| "TAW" | treth ar werth; |
| "Trefn Gyfathrebu" | y drefn gyfathrebu a nodir yn Atodlen 5 a gaiff ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor; |
| "TUPE" | Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006; |
| "Twyll" | unrhyw drosedd o dan gyfraith sy'n creu troseddau mewn perthynas a gweithredoedd twyllodrus neu o dan gyfraith gwlad mewn perthynas â gweithredoedd twyllodrus yn ymwneud â'r Cytundeb neu dwyllo, ceisio twyllo neu gynllwynio i dwyllo, S4C; |

DRAFT

| | |
|---|---|
| "Tymor" | y cyfnod o bedair (4) blynedd o'r Dyddiad Cychwyn pan fydd y Cytundeb hwn mewn grym ac yn weithredol yn amodol ar gymal 15; |
| "Ymarfer Da y Diwydiant" | y cyfryw radd o fedr, gofal, diwydrwydd a phwyll o'r safon uchaf a ddisgwylir yn rhesymol ac fel arfer gan unigolion cymwys a phrofiadol sydd yn weithgar yn yr un fath o fusnes â'r Cwmni, dan yr un amgylchiadau neu dan amodau tebyg; yn defnyddio dulliau, safonau, ymarferion a threfnweithiau sydd yn cwrdd â'r Cyfreithiau Perthnasol a chan ddefnyddio personél sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol. |

1.2 bydd geiriau ac ymadroddion (gan gynnwys geiriau ac ymadroddion a ddiffinnir yng nghymal 1.1) sydd yn dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd; bydd cyfeiriadau at "barti" neu'r "partïon" yn golygu S4C a/neu'r Cwmni fel bo'r cyd-destun yn mynnu; bydd cyfeiriadau at y naill ryw yn cynnwys pob rhyw; dehonglir cyfeiriadau at berson i gynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, corfforaeth, llywodraeth, cenedl neu asiantaeth lywodraethol neu unrhyw fenter ar y cyd, ymddiriedolaeth, cymdeithas neu bartneriaeth (boed gyda phersonoliaeth cyfreithiol ar wahân ai peidio) ac unrhyw gyfuniad o unrhyw un neu fwy o'r uchod;

1.3 defnyddir y penawdau yn y Cytundeb hwn er cyfleustra yn unig ac ni fwriedir iddynt effeithio ar y modd y dehonglir neu y deallir y Cytundeb hwn; bydd cyfeiriadau at Atodlenni a chymalau yn ymwneud ag atodlenni a chymalau'r Cytundeb hwn, a bydd cyfeiriadau at is-gymalau yn ymwneud ag is-gymalau'r cymal y mae'r cyfeiriad yn ymddangos ynddo;

1.4 dehonglir unrhyw gyfeiriad at statud neu ddarpariaeth statudol, i gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth eilaidd a wnaed yn ei sgil, a dehonglir unrhyw gyfeiriad at y statud hwnnw neu'r ddarpariaeth statudol honno neu'r ddeddfwriaeth eilaidd honno fel y gall fod wedi ei hamrywio, ei newid neu ei hail-weithredu neu fel y gall gael ei hamrywio, ei newid neu ei hail-weithredu o dro i dro (wedi neu heb ei newid);

1.5 bydd y geiriau "gan gynnwys" yn golygu "gan gynnwys ond heb gyfyngiad";

1.6 ni fydd y rheol a elwir y rheol 'ejusem generis' yn weithredol ac o ganlyniad ni fydd geiriau cyffredinol sydd yn cael eu dilyn gan y term 'arall/eraill' yn cael eu dehongli yn gaeth o ganlyniad i'r ffaith eu bod yn cael eu rhagflaenu gan eiriau sydd yn dynodi dosbarth penodol o weithredoedd, materion neu bethau;

1.7 os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Cytundeb hwn a'r Polisïau, rhoddir blaenoriaeth i amodau'r Cytundeb hwn; a

1.8 bydd amser o'r hanfod parthed oblygiadau'r Cwmni o dan y cytundeb hwn.

## 2. Y Gwasanaethau

2.1 Mae S4C trwy hyn yn cytundebu'r Cwmni ac mae'r Cwmni yn cytuno i ddarparu'r Gwasanaethau o'r Dyddiad Cychwyn trwy gydol y Tymor yn unol ag amodau a thelerau'r Cytundeb hwn oni ac hyd nes bydd y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu gan un o'r ddau barti yn unol â'i amodau neu, fel arall, yn dod i ben.

2.2 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn, bydd y Cwmni yn ac yn peri y bydd y Staff ar bob adeg yn ystod y Tymor yn cydymffurfio â'r holl Gyfreithiau

Perthnasol, yr holl Bolisïau a'r holl gyfarwyddiadau a chyfarwyddyd rhesymol perthnasol a rhoddir gan S4C o bryd i'w gilydd.

2.3 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod y Staff yn darparu'r Gwasanaethau mewn ffordd broffesiynol, cwrtais, amserol, cydwybodol ac effeithiol, ac yn unol â'r safonau a fydd yn ofynnol gan S4C.

2.4 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl Staff perthnasol bob amser yn meddu ar wybodaeth eglur, cywir a chyfoes am Wasanaethau S4C ac unrhyw Wasanaeth Newydd S4C a'u hallbwn perthnasol, y Polisïau a'r Cyfreithiau Perthnasol.

2.5 Yn dilyn cais gan S4C, bydd y Cwmni yn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaethau a gwasanaethau mynediad S4C yn gyffredinol trwy fynychu digwyddiadau a bennir gan S4C o bryd i'w gilydd a chydweithredu gydag S4C yn unrhyw gyhoeddusrwydd arall yn ymwneud â'r Gwasanaethau.

2.6 Ni fydd y Cwmni yn, a bydd yn sicrhau na fydd y Staff yn, cynrychioli cyfrifoldeb corfforaethol S4C ar unrhyw fater. Bydd y Cwmni yn sicrhau na fydd y Gwasanaethau yn cael eu hystyried gan y cyhoedd fel ffordd S4C o gyfleu ei pholisi neu ei chynllun busnes, ond ei fod yn wasanaeth sydd yn ategu'r Polisïau.

2.7 Ni fydd y Cwmni, a bydd yn sicrhau na fydd y Staff, yn cyfathrebu gyda'r wasg neu'n gwneud unrhyw ddatganiadau ynghylch materion ariannol neu gyfansoddiadol sydd yn ymwneud ag S4C neu ei Chwmnïau Teulu neu Wasanaethau S4C neu unrhyw Wasanaeth Newydd S4C mewn unrhyw ffordd.

2.8 Ni fydd y Cwmni yn ymrwymo i unrhyw ddyletswydd, boed yn echblyg neu'n ymhlyg, ag unrhyw berson sydd yn neu a all wrthdaro â chyflawniad llawn a chywir ei ddyletswyddau i S4C o dan y Cytundeb hwn.

2.9 Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn syth yn ysgrifenedig os am unrhyw reswm y bydd yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn. Bydd unrhyw hysbysiad o'r fath heb amharu ar unrhyw hawliau y gall S4C fod â hawl iddynt boed o dan y Cytundeb hwn neu fel arall o dan y gyfraith mewn perthynas ag anallu'r Cwmni i fedru cyflawni ei ddyletswyddau.

2.10 Bydd y Cwmni yn cydymffurfio gydag egwyddorion Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb S4C (sydd wedi ei gyhoeddi ar safle Awdurdod S4C ar wefan S4C).

2.11 Bydd y Cwmni yn, a bydd yn sicrhau bod yr holl Staff ar bob adeg yn ystod y Tymor yn gweithredu er lles gorau S4C ac yn benodol ond heb gyfyngiad ni fydd yn gwneud neu'n hepgor gwneud unrhyw beth nac yn ymrwymo i unrhyw gytundebau gydag unrhyw berson a allai wrthdaro â buddiannau gorau S4C, gael effaith andwyol ar enw neu ewyllys da S4C ac/neu oblygiadau'r Cwmni o dan y Cytundeb hwn.

## 2A. Datganiad Technoleg a Meddalwedd

2A.1 Cyn dechrau'r Gwasanaeth, ac yn ddi-ragfarn i gymalau 25 a 26 o'r Cytundeb hwn, bydd y Cwmni yn darparu datganiad technoleg, meddalwedd, deallusrwydd artiffisial a phrosesu data i S4C ("y Datganiad"). Rhaid i'r Datganiad nodi'r holl feddalwedd, platfformau, gwasanaethau a gynhelir, awtomeiddio ac offer a ddatblygwyd yn fewnol a gynigir ar gyfer y Gwasanaeth. Ar gyfer pob un ohonynt, dylai'r Datganiad nodi ei ddiben, ei ddarparwr neu'i berchennog cyfreithiol, p'un a yw'n drydydd parti neu'n fewnol, a'r trefniadau trwyddedu a chymorth.

DRAFT

2A.2 Dylai'r Datganiad ddatgelu unrhyw ddefnydd o ddeallusrwydd artiffisial (AI) neu ddysgu peiriannau, gan gynnwys AI wedi'i ymgorffori mewn meddalwedd trydydd parti, y darparwr neu'r model, gwybodaeth S4C a ddarperir, adolygiad dynol, ac a yw gwybodaeth yn cael ei chadw neu ei defnyddio ar gyfer hyfforddiant neu wella gwasanaethau.

2A.3 Dylai'r Datganiad nodi unrhyw gynnwys, metadata, data personol neu wybodaeth gyfrinachol S4C sy'n cael ei drosglwyddo i, y cyrchwyd ganddynt, y storiwyd ynddi neu ei brosesu gan system arall neu drydydd parti, gan gynnwys y derbynnydd neu'r is-brosesydd, y diben, lleoliad prosesu, trefniadau cadw a dileu, a mesurau diogelu.

2A.4 Ar gyfer meddalwedd fewnol, dylai'r Datganiad nodi ei berchnogaeth, dibyniaethau trydydd parti materol, datblygiadau wedi'u cynllunio neu a ragwelir yn rhesymol sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth, pwy fydd yn berchen arnynt, a hawliau trwydded, mynediad a pharhad S4C yn ystod ac ar ôl y Tymor.

2A.5 Dylai'r Datganiad nodi'n benodol os na chynigir AI neu brosesu allanol.

2A.6 Dylid adolygu'r Datganiad drwy gydol y Tymor a'i ddiwygio pan fo'n berthnasol. Dylid hysbysu S4C am unrhyw ddiwygiadau ar unwaith.

## 3. Safonau Iaith Gymraeg

3.1 I’r graddau y bo’r rhain yn berthnasol i ddarpariaeth y Gwasanaethau, bydd y Cwmni’n cydymffurfio gyda Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'r safonau y mae'n rhaid i S4C gydymffurfio â hwy yn unol â’r Hysbysiad Cydymffurfio, fel petai y Cwmni oedd S4C.

3.2 Lle bo’r Cwmni’n cysylltu ag aelodau o’r cyhoedd mewn perthynas â’r Gwasanaethau, bydd y Cwmni’n gwneud hynny yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) neu yn Gymraeg yn unig fel sy’n briodol.

3.3 Bydd y Cwmni’n gyfrifol am adrodd yn ysgrifenedig i S4C bob [mis] [chwarter] [chwe mis] trwy ddarparu’r wybodaeth ganlynol: unrhyw gwynion gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth neu gan staff yn cyfeirio at anawsterau wrth ddarparu’r Gwasanaeth yn unol â gofynion yn ymwneud â’r Gymraeg dros gyfnod yr adroddiad.

## 4. Rheolaeth Olygyddol

4.1 S4C fydd â’r rheolaeth olygyddol dros Gynnyrch y Gwasanaethau ac mae'r Cwmni yn cytuno i gyflawni'r Gwasanaethau yn unol â chyfarwyddiadau penodol S4C. Lle bo gofyn i S4C wneud penderfyniad o bwys a fydd yn effeithio’n sylweddol ar y Cwmni, bydd S4C yn rhoi ystyriaeth deg i farn y Cwmni. Gwneir pob penderfyniad o bwys sy'n berthnasol i ddarpariaeth y Gwasanaethau gan y Cwmni ac S4C ar y cyd gan gymryd i ystyriaeth unrhyw gostau ychwanegol a ddeillir o’r fath benderfyniad, ond os bydd unrhyw anghydfod bydd penderfyniad S4C yn derfynol a bydd gofyn i’r Cwmni weithredu'n unol â'r penderfyniad hwnnw.

4.2 Bydd darllediad gan S4C o unrhyw Gynnyrch y Gwasanaethau neu unrhyw ddefnydd arall o unrhyw elfen o'r Gwasanaethau gan neu ar ran S4C yn ddi-ragfarn i unrhyw hawliad y gall S4C ei gwneud o dan y Cytundeb hwn neu o dan unrhyw gyfraith ac ni dybir bod hyn yn dderbyniad neu'n gydnabyddiaeth neu'n gyfaddefiad



DRAFT

gan S4C bod y fath Gynnyrch y Gwasanaethau neu unrhyw elfen o'r Gwasanaethau yn cydymffurfio â gofynion y Cytundeb hwn na bod y Cwmni wedi cydymffurfio â'i oblygiadau o dan y Cytundeb hwn.

4.3 Ni fydd unrhyw ymarfer gan S4C ar ei rheolaeth olygyddol neu unrhyw gymeradwyaeth yn unol â'r Drefn Gyfathrebu neu'r cymal 4 hwn yn cael ei ddehongli fel cyfyngiad ar gyfrifoldeb y Cwmni i gynhyrchu Cynnyrch y Gwasanaethau, i gyfleu'r Deunydd Cyfleu neu i ddarparu'r Gwasanaethau yn unol â gofynion y Cytundeb hwn.

4.4 Nid yw S4C yn gwarantu y bydd yn defnyddio Cynnyrch y Gwasanaethau.

4.5 Ni fydd y Cwmni yn sicrhau neu'n ceisio sicrhau unrhyw nawdd ar gyfer Cynnyrch y Gwasanaethau, y Deunydd Cyfleu na'r Gwasanaethau heb ganiatâd S4C o flaen llaw.

## 5. Adroddiadau a Chofnodion

5.1 Bydd y Cwmni yn cadw cofnod ysgrifenedig manwl a threfnus o'r canlynol wrth ddarparu'r Gwasanaethau:

5.1.1 yr holl Ddeunydd Cyfleu a gaiff ei greu gan y Cwmni a'r holl ddeunydd a gaiff ei ddarlledu gan S4C;

5.1.2 y nifer o oriau o Raglenni Perthnasol mewn perthynas â hwy y caiff y Gwasanaethau eu darparu yn ystod unrhyw fis a'r Ffi perthnasol;

*5.1.3 [gwybodaeth i'w nodi yn dilyn dyfarniad y cynigydd llwyddiannus];*

## 6. Trefn Gyfathrebu a Chyfarfodydd Adolygu

6.1 Bydd y Cwmni yn cyfathrebu ag S4C yn unol â'r Drefn Gyfathrebu trwy gydol y Tymor.

6.2 Bydd y Cwmni yn cyfarfod â S4C yn y fath leoliadau ac ar adegau ac ar ddyddiadau y gwneir cais rhesymol gan S4C amdanynt o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor i drafod unrhyw fater sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaethau a sydd angen delio ag ef ar fyr rybudd. Bydd y Cwmni yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau mynychiad i'r cyfarfod gan bob aelod o'r Staff y gall S4C ofyn yn rhesymol iddynt fynychu'r cyfarfod.

6.3 Bydd S4C a'r Cwmni yn cyfarfod yn fuan wedi diwedd y tri (3) mis cyntaf o'r Tymor ac wedi hynny yn [chwarterol] i adolygu'n ffurfiol y materion sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaeth. Bydd y Cwmni yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod Personél Allweddol a Staff y gall S4C ofyn yn rhesymol iddynt fynychu, yn mynychu pob cyfarfod adolygu. O leiaf ddeg (10) Diwrnod Gwaith cyn unrhyw gyfarfod o'r fath bydd y Cwmni yn darparu adroddiad ysgrifenedig yn cynnwys holl wybodaeth arall y gall S4C ofyn yn rhesymo amdani ynghylch y Chwarter blaenorol.

6.4 Yn y cyfarfodydd adolygu bydd S4C a'r Cwmni yn adolygu ac yn trafod materion sydd yn codi o ddarparu'r Gwasanaethau gan gynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r canlynol:

6.4.1 natur a/neu safon y Gwasanaethau a'r Deunydd Cyfleu a ddarparwyd yn ystod y Chwarter blaenorol;

6.4.2 unrhyw newidiadau i'w gwneud i'r Gwasanaethau a/neu'r Drefn Gyfathrebu er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Gwasanaethau (gan gynnwys gwelliannau i'r Systemau Gweithredu, y lefelau staffio, hyfforddi Staff, gofynion meddalwedd);

6.4.3 arddull, amlder, cynnwys, amserlen cyfleu ac unrhyw fater arall sydd yn ymwneud â'r adroddiadau;

6.4.4 gofynion y Gwasanaethau ar gyfer y Chwarter nesaf;

6.4.5 diweddariadau ac amserlenni sy'n gysylltiedig â datblygu technoleg newydd i gyflawni cerrig milltir datblygu y cytunwyd arnynt;

6.4.6 [***manylion materion ychwanegol i'w trafod yn ystod cyfarfodydd adolygu i'w cytuno rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.***]

6.5 Bydd y partïon yn ymdrechu i gytuno mewn ewyllys da ar y materion a drafodwyd. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, bydd y partïon yn cofnodi a chadarnhau yn ysgrifenedig unrhyw faterion a effeithir ar y Gwasanaethau am weddill y Tymor yn sgil unrhyw gyfarfod adolygu a bydd y Cwmni yn gweithredu unrhyw newidiadau ac amrywiadau i'r Gwasanaethau, eu natur a'u hansawdd neu'r Drefn Gyfathrebu a gytunir yn ystod unrhyw gyfarfod adolygu er mwyn cynyddu effeithiolrwydd y Gwasanaethau am weddill y Tymor.

6.6 Yn dilyn y fath gyfarfodydd adolygu, gall S4C roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni i:

6.6.1 gadarnhau apwyntiad y Cwmni am weddill y Tymor yn unol â thelerau ac amodau'r Cytundeb hwn;

6.6.2 gadarnhau apwyntiad y Cwmni am weddill y Tymor ar y fath delerau diwygiedig, ychwanegol neu wahanol a gytunir rhwng y partïon ac a gadarnheir yn ysgrifenedig;

6.6.3 i derfynu'r Cytundeb hwn yn syth ar roi rhybudd yn dilyn y cyfarfod adolygu cyntaf; neu

6.6.4 derfynu'r Cytundeb hwn wedi hynny drwy roi tri mis o rybudd.

## 7 Staffio

7.1 Mae'r Cwmni yn cytuno i gyflogi neu gytundebu gwasanaeth nifer digonol o Staff sydd yn meddu ar y profiad a'r sgiliau priodol a sydd yn rhugl yn y Gymraeg, Saesneg [ac Iaith Arwyddo Prydeinig (y'i gelwir BSL)] lle yn briodol ac sy'n gyfarwydd â neu wedi eu hyfforddi i ddefnyddio'r dechnoleg a thechneg sy'n angenrheidiol wrth ddarparu'r Gwasanaethau i sicrhau bod y Gwasanaethau yn cael eu darparu yn unol ag Ymarfer Da y Diwydiant a gofynion y Cytundeb hwn.

7.2 Lle'n ofynnol gan S4C, bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl Staff yn arwyddo cytundeb cyfrinachedd yn y ffurf a nodir yn Atodlen 6 y ddogfen hon.

7.3 Bydd y Cwmni yn darparu'r holl hyfforddiant angenrheidiol i'r Staff yn unol ag Ymarfer Da y Diwydiant ac yn darparu hyfforddiant i Staff fel y bo'n briodol, yn berthnasol i Wasanaethau S4C ac unrhyw Wasanaeth Newydd S4C **[nodi**

**manylion]** cofnodi ac adrodd ar y gwybodaeth a nodir yn y Drefn Gyfathrebu, goblygiadau cyfreithiol materion sydd yn codi wrth ddarparu’r Gwasanaethau ac unrhyw ofynion hyfforddi eraill y gall S4C ofyn amdanynt yn rhesymol.

## 8. Personél Allweddol

8.1 Mae'r Cwmni yn gwarantu ag S4C y bydd yn sicrhau drwy gytundeb y bydd y Personél Allweddol ac unrhyw rai sy'n cymryd eu lle yn unol â Chymal 8.4 yn gweithio cynifer o oriau ac yn unol â'r fath batrwm gwaith ag sy'n angenrheidiol er mwyn goruchwylio'r Gwasanaethau a sicrhau bod pob agwedd o gyflawni'r Gwasanaethau yn cael ei gyflawni yn drylwyr, yn effeithiol ac yn brydlon.

8.2 Bydd y Cwmni yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y Personél Allweddol yn parhau yn gyflogedig ganddo ac ar gael i gyfrannu at ddarparu’r Gwasanaethau trwy gydol y Tymor.

8.3 Bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn ysgrifenedig o unrhyw faterion neu amgylchiadau a allai effeithio ar argaeledd y Personél Allweddol yn syth wedi iddo ddod yn ymwybodol ohonynt.

8.4 Os na fydd unrhyw un neu rai o’r Personél Allweddol ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y Tymor, bydd y Cwmni yn crybwyll eilydd addas i S4C yn ysgrifenedig. Ni chaniateir i unrhyw eilydd ar gyfer unrhyw un o’r Personél Allweddol ddarparu’r Gwasanaethau oni bai bod S4C wedi rhoi ei chymeradwyaeth ysgrifenedig i’r fath eilydd ymlaen llaw. Os na ellir cael gafael ar eilydd sydd yn dderbyniol i S4C, bydd gan S4C yr hawl trwy roi rhybudd ysgrifenedig i’r Cwmni i derfynu’r Cytundeb hwn yn syth.

8.5 Ar dderbyn rhybudd ysgrifenedig gan S4C, bydd y Cwmni yn cael gwared ar unrhyw aelod o Staff a bennir gan S4C neu’n peri bod unrhyw aelod o Staff a bennir gan S4C yn cael ei symud fel na fydd yn darparu unrhyw ran o’r, neu ymwneud â’r, Gwasanaethau lle bo S4C o’r farn bod ymddygiad neu ymarweddiad y fath aelod o’r Staff yn amharu ar fuddiannau, enw da neu ewyllys da S4C, neu’n amhriodol o ystyried natur y Gwasanaethau. Bydd penderfyniad S4C o ran a ddylid symud neu gael gwared ar unrhyw aelod o Staff yn derfynol ac yn bendant. Ni fydd S4C yn atebol o dan unrhyw amgylchiadau i’r Cwmni neu i unrhyw aelod o Staff o’r fath mewn perthynas â chael gwared ohonynt a bydd y Cwmni yn indemnio S4C rhag ac yn erbyn unrhyw a phob hawliad, hawlgais, achos ac/neu ymgyfreitha a wneir neu a ddygir neu a fygythir yn erbyn S4C gan unrhyw aelod o Staff o’r fath (gan gynnwys costau cyfreithiol a threuliau ar sail y costau rhwng cyfreithiwr a’i gleient ei hun) a ddioddefir mewn cysylltiad â hyn. Ni fydd cael gwared ar unrhyw aelod o Staff dan y cymal 8.5 hwn yn rhyddhau’r Cwmni o’i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn.

## 9. Eiddo Deallusol

9.1 Mae’r Cwmni’n cydnabod a chytuno, o ran y berthynas rhwng y Cwmni ac S4C, bod teitl cyfreithiol, yr holl hawlfraint a phob hawl eiddo deallusol arall yn ac i’r Prif Ffeiliau ac unrhyw eiddo arall a gyflëir i’r Cwmni mewn cysylltiad â’r Gwasanaethau yn ac fe fyddant yn parhau wedi eu breinio yn S4C.



DRAFT

9.2 Bydd yr Eiddo Deallusol yn berchen i ac yn eiddo llwyr S4C. Bydd S4C yn rhydd i ddefnyddio ac i ymelwa (ac i awdurdodi trydydd-bartïon i ddefnyddio ac i ymelwa) ar yr Eiddo Deallusol ym mha bynnag ffurf, ym mha bynnag fodd ac mewn unrhyw gyfrwng bynnag (boed yn hysbys ar y Dyddiad Cychwyn neu a ddyfeisir wedi hynny) ac mae'r Cwmni trwy hyn yn aseinio i S4C yn llwyr, yn ddi-droi'n-ôl ac yn ddiamod gyda theitl llawn wedi ei warantu ac yn rhydd o bob Llyffethair yr holl hawliau, budd a theitl ledled y byd yn ac i unrhyw a phob hawlfraint, hawl sydd o natur hawlfraint, hawl bas data a hawl dyluniad heb ei chofrestru yn y DU boed yn hysbys ar hyn o bryd neu sy'n dod i rym yn y dyfodol a gynhwysir yn yr Eiddo Deallusol gyda'r bwriad a gyda'r effaith y bydd yr holl hawliau o'r fath yn cael eu breinio yn S4C yn awtomatig ac yn syth ar y dyddiad y caffaelir, y creuir, y datblygir, y dylunnir neu fel arall y paratoir y fath hawliau ymhob achos am gyfnod llawn y cyfryw gan gynnwys pob adnewyddiad ohonynt ac estyniad iddynt ynghyd â phob hawl, budd neu bŵer sydd yn tarddu neu sydd yn deillio ohonynt gan gynnwys yr hawl i ddwyn achos am iawndal a rhwymedïau eraill mewn perthynas ag unrhyw darfu arnynt yn y gorffennol neu'n gyfredol.

9.3 Mae'r Cwmni yn rhoi ac yn cadarnhau'n ddi-alw'n-ôl ac yn ddiamod i S4C, ei holynwyr, ei haseineion a'i thrwyddedeion;

9.3.1 bod yr holl Staff wedi aseinio a/neu roi i'r Cwmni yr holl hawliau a chaniatâd yn sgil y Ddeddf a'r holl gyfreithiau eraill sydd mewn grym nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd, y gall fod eu hangen er mwyn medru ymelwa ar yr Eiddo Deallusol ym mha bynnag ffurf ac ym mha bynnag fodd neu gyfrwng (boed yn hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir wedi hyn); a

9.3.2 bod yr holl Staff wedi ildio yn ddi-alw'n-ôl a diamod eu holl hawliau mewn perthynas â Chynnyrch y Gwasanaethau y mae'r cyfryw Staff ar hyn o bryd neu y gallant fod â'r hawl iddynt yn y dyfodol yn sgil darpariaethau Adrannau 77, 80, 84 ac 85 y Ddeddf ac unrhyw hawliau moesol eraill y gall y cyfryw Staff fod â hawl iddynt dan unrhyw ddeddfwriaeth sydd mewn grym nawr neu yn y dyfodol mewn unrhyw ran o'r byd.

9.4 Bydd y Cwmni ar gais ac ar gost S4C yn cyflawni'r holl weithredoedd ac yn cyflawni'r holl ddogfennau ag y gall S4C eu mynnu o bryd i'w gilydd er mwyn diogelu neu freinio'n briodol yn S4C yr holl hawliau, teitl a buddiannau ag a aseinir ac a drwyddedir i S4C neu sydd i'w haseinio neu i'w trwyddedu i S4C yn sgil y cymal 9 hwn a/neu i ddiogelu neu i sicrhau patent, dyluniad cofrestredig, nod masnach cofrestredig a/neu ffurf arall o ddiogelu'r Eiddo Deallusol. Mae'r Cwmni trwy hyn yn rhoi pŵer atwrnai di-alw'n-ôl (a roddir i sicrhau budd perchnogol S4C ac mae'n ddi-alw'n-ôl yn unol ag Adran 4 Deddf Pwerau Atwrnai 1971) i S4C gyda'r hawl ond nid y ddyletswydd i gyflawni unrhyw a phob gweithred a pheth sydd yn angenrheidiol er mwyn rhoi effaith lawn neu bellach i ddarpariaethau'r Cytundeb hwn ac i weithredu unrhyw gyfryw weithredoedd, dogfennau ac offerynnau yn enw ac ar ran y Cwmni os na fydd y Cwmni yn llwyddo i wneud hynny cyn pen cyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg (14) ar ôl cael cais perthnasol gan S4C.

9.5 Bydd y teitl cyfreithiol yn ac i Gynnyrch y Gwasanaethau yn trosglwyddo i S4C yn syth ar eu creu. Bydd y risg yn y Deunydd Cyfleu yn trosglwyddo i S4C ar gyfleu yn gorfforol y Deunydd Cyfleu i S4C.

## 10. Gwarantau

10.1 Mae'r Cwmni yn addo, yn gwarantu ac yn ymrwymo gydag S4C ar y telerau a bennir yn Atodlen 2.

10.2 Mae'r Cwmni yn derbyn bod S4C yn arwyddo'r Cytundeb hwn gan ddibynnu ar bob un o'r Gwarantau.

10.3 Dehonglir pob un o'r Gwarantau fel gwarant annibynnol ac ar wahân ac ni chyfyngir neu amharir ar eu hystyr neu eu heffaith trwy gyfeirio at neu drwy ddehongli telerau unrhyw Warant arall neu unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn.

**11. Materion Ariannol**

11.1 Mewn ystyriaeth am y Gwasanaethau a'r perfformiad gan y Cwmni o'i oblygiadau o dan y Cytundeb hwn ac yn dilyn derbyn gan y Cwmni dderbynneb dilys y bydd S4C yn talu'r Ffi (am bob awr cyflawn a gyflawnir gan y Cwmni neu gyfradd cyfrannol ohonno) i'r Cwmni.

11.2 Nid yw'r Ffi yn cynnwys TAW ac fe delir TAW gan S4C uwchlaw'r Ffi yn amodol ar dderbyn anfonebau TAW priodol.

11.3 Mae'r Ffi yn cynnwys yr holl gostau a threuliau a ddioddefir gan y Cwmni wrth ddarparu'r Gwasanaethau ac ni fydd S4C yn atebol am dalu unrhyw gostau sydd yn ychwanegol i'r Ffi.

11.4 [***Cymalau sydd yn delio gyda thalu'r Ffi i'w cynnwys ar ôl cytundeb rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus gan ystyried y strwythur prisio ac anfonebu a nodir yn y tendr llwyddiannus***]

**12. [Trwydded i Feddiannu [Gwasanaethau Isdeitlo yn unig]**

12.1 Mae S4C yn rhoi trwydded dros dro i'r Cwmni gael mynediad i Safle S4C ar y cyd ag S4C er mwyn darparu ac ar gyfer y pwrpas o ddarparu elfennau o'r Gwasanaethau Isdeitlo yn unig. Bydd gan y Cwmni'r hawl i ddefnyddio Safle S4C a'r holl gyfleustodau sy'n gwasanaethu Safle S4C sy'n angenrheidiol i'r Cwmni eu defnyddio heb dâl i S4C.

12.2 Mae S4C yn rhoi i'r Cwmni yr hawl i ddefnyddio Systemau S4C [am y fath gyfnodau a gytunir] heb dâl ar gyfer y pwrpas o ddarparu'r Gwasanaethau yn unig. Bydd y teitl yn a pherchnogaeth o Systemau S4C yn aros yn eiddo i S4C.

12.3 Mae'r Cwmni'n cytuno ac yn ymrwymo ag S4C i sicrhau:

12.3.1 y bydd ei Staff yn cadw Safle S4C yn daclus ac yn glir o sbwriel ac na fyddant yn creu rhwystr yn Safle S4C;

12.3.2 na fydd y Staff yn gwneud unrhyw addasiad nac ychwanegiad i Safle S4C heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw;

12.3.3 na fydd y Staff yn dangos unrhyw hysbyseb, arwyddfyrddau, posteri, arwyddion na rhybuddion yn Safle S4C heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw;

12.3.4 na fydd y Staff yn gwneud unrhyw beth nac yn caniatáu i unrhyw beth gael ei wneud ar Safle S4C neu unrhyw le arall ar eiddo S4C sydd yn anghyfreithlon neu y gall fod yn niwsans, yn ddifrod neu aflonyddwch i S4C neu unrhyw denant arall S4C; ac

DRAFT

12.3.5 y bydd y Staff yn cydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau y mae S4C yn eu gwneud a'u hysbysu i'r Cwmni o dro i dro sy'n rheoli defnydd y Cwmni o Safle S4C a Systemau S4C gan gynnwys y Polisïau Safle.

12.4 Os yw unrhyw o Staff y Cwmni'n torri ar unrhyw un o'r Polisïau Safle neu unrhyw un o'r ymrwymiadau yng nghymal 12.3 uchod, gall S4C wrthod rhoi mynediad i'r fath Staff i Safle S4C ac/neu i Systemau S4C dros dro a chael gwared ar aelod o Staff o Safle S4C dros dro lle bo'r Staff perthnasol wedi gwneud gweithred neu ddiffyg gweithredu sy'n gamymddwyn difrifol yn unol â thelerau'r Polisïau Safle neu lle byddai parhau i roi mynediad i'r Staff i Safle S4C yn effeithio'n andwyol ar gadernid a/neu ddiogelwch Systemau S4C a/neu Safle S4C, ar yr amod y caiff y Cwmni ei hysbysu a'i ymgynghori cyn y gwneir unrhyw weithred dros dro oni bai bo S4C, yn ymddwyn yn rhesymol, o'r farn na ellir oedi unrhyw weithrediad ac y dylid gweithredu ar unwaith. Bydd S4C yn rhoi'r gorau i unrhyw gyfyngiad dros dro i Staff lle bo'r Cwmni'n hysbysu S4C fod gweithred ddisgyblu a/neu reoli priodol wedi cymryd lle, oni bai bo S4C o'r farn resymol y dylai unrhyw gyfyngiad barhau mewn lle i ddiogelu cadernid a/neu ddiogelwch Systemau S4C a/neu Safle S4C. Caiff unrhyw wrthodiad parhaol i roi mynediad i Safle S4C a/neu Systemau S4C (e.e. lle bo'r Staff perthnasol wedi gwneud gweithred neu ddiffyg gweithredu sy'n gamymddwyn difrifol, esgeulustod difrifol neu gamgymeriad difrifol/amlwg neu doriad sylfaenol/gwirioneddol o'r Polisïau Safle neu lle byddai parhau i roi mynediad i'r Staff perthnasol yn effeithio'n andwyol ar gadernid a/neu ddiogelwch Systemau S4C a/neu Safle S4C) ei weithredu gan S4C yn unol â chymal 8.5.

12.5 Bydd S4C yn glanhau a chynnal a chadw Safle S4C fel safle gwaith diogel sy'n cydymffurfio â phob rheoliad iechyd a diogelwch perthnasol a'r Cyfreithiau Perthnasol. Bydd S4C yn sicrhau bod gan y Staff yr un mynediad ag sydd gan staff S4C i gyfleusterau lluniaeth sydd ar gael yn Safle S4C.

12.6 Nid oes perthynas landlord a thenant yn cael ei chreu rhwng S4C a'r Cwmni o dan y Cytundeb hwn ac mae'r Cwmni a phob parti'n cydnabod bod S4C yn cadw rheolaeth, meddiant a hawliau rheoli dros Safle S4C ac ni fydd gan y Cwmni'r hawl i eithrio S4C o unrhyw ran o Safle S4C.

## 13. Indemniad

Bydd y Cwmni yn indemnio ac yn digolledu ac yn cadw S4C wedi ei hindemnio ac yn ddigolled rhag ac yn erbyn unrhyw a phob achos, hawliad, hawlgais, ymgyfreitha, dirwy, cost, traul (gan gynnwys treuliau cyfreithiol ar sail y costau rhwng cyfreithiwr a'i gleient ei hun), taliad, colled, iawndal ac atebolrwydd arall o ba bynnag natur a sut bynnag y bo'n tarddu a dioddefir, a delir neu a dderbynnir gan S4C o ganlyniad i neu mewn cysylltiad ag unrhyw gyflawni neu ddiffyg gyflawni gan y Cwmni o unrhyw rai o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw dorri ar unrhyw un neu fwy o'r Gwarantau gan y Cwmni [neu unrhyw un o'i ymrwymiadau fel y'u cynhwysir yng nghymal 12.3] neu unrhyw esgeulustod neu weithred neu ddiffyg gweithredu bwriadol ar ran y Cwmni neu ar ran unrhyw aelod o Staff neu unrhyw hawliad gan unrhyw berson bod unrhyw ddefnydd neu ymelwa gan S4C neu unrhyw un o'i holynwyr, aseineion neu ei thrwyddedeion o'r Eiddo Deallusol, yn tarfu ar hawliau unrhyw berson.

## 14. Yswiriant

14.1 Cyn cychwyn darparu'r Gwasanaethau, mae'r Cwmni'n ymrwymo i gychwyn a chynnal polisïau yswiriant addas gyda chwmnïau neu dan-sgrifennwyr yswiriant cyfrifol rhag yr holl beryglon yr yswirir yn eu herbyn fel rheol yn unol ag arferion ac ymarfer da y diwydiant ac amgylchiadau penodol y Gwasanaethau trwy gydol y Tymor ac am gyfnod o [*rhowch ffigwr*] blwyddyn yn dilyn terfynu cytundeb neu ar ddiwedd cyfnod y cytundeb. Heb amharu ar natur gyffredinol yr uchod, bydd y cyfryw yswiriant yn cynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad a chyfanswm cronnol (*aggregate)* anghyfyngedig y flwyddyn, yswiriant atebolrwydd proffesiynol digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad gyda chyfanswm cronnol o £5,000,000 fesul hawliad a chyfanswm cronnol (*aggregate*) anghyfyngedig y flwyddyn, ac yswiriant atebolrwydd seiber digonol gyda chwmni yswiriant cyfrifol gyda throthwy isafswm indemniad o £5,000,000 fesul hawliad, a chyfanswm cronnol (*aggregate*) anghyfyngedig y flwyddyn.

14.2 Mae'r Cwmni'n ymrwymo i gydymffurfio â thelerau, amodau a chyfyngiadau'r Polisïau Yswiriant trwy gydol y Tymor, gan gynnwys sicrhau taliadau amserol o bob premiwm. Ni fydd y Cwmni yn gwneud dim nac yn caniatáu i ddim gael ei wneud fydd yn peri y gall unrhyw un o'r Polisïau Yswiriant gael ei ddiddymu, neu fod yn ddi-rym neu fod yn ddirymadwy, boed hynny'n rhannol neu'n gyfan gwbl.

14.3 Bydd y Cwmni yn darparu gwybodaeth lawn a'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r holl Bolisïau Yswiriant a'r holl amrywiadau, ychwanegiadau ac estyniadau i'r holl Bolisïau Yswiriant i S4C yn ddi-oed wedi derbyn cais gan S4C.

14.4 Bydd y Cwmni yn cynghori S4C yn syth yn ysgrifenedig o unrhyw ddigwyddiad a all arwain at unrhyw hawliad o dan unrhyw un o'r Polisïau Yswiriant a all rwystro'r Cwmni rhag cydymffurfio â'i ddyletswyddau cytundebol o dan y Cytundeb hwn. Bydd y Cwmni yn darparu i S4C gopïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau sy'n berthnasol i unrhyw fater o'r fath yn syth wedi eu derbyn.

**14A. Ardystiad Seiberddiogelwch**

14A.1 Bydd y Cwmni yn cadw ac yn cynnal, drwy gydol tymor y Cytundeb hwn, ardystiad seiberddiogelwch dilys a argymhellir gan Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol y DU (NCSC), a fydd yn cynnwys, o leiaf, 'Cyber Essentials' neu 'Cyber Essentials Plus', sef y safon sylfaenol a argymhellir gan NCSC ar gyfer seiberddiogelwch ar gyfer pob sefydliad, a bydd yn darparu tystiolaeth ysgrifenedig o ardystiad o'r fath i S4C ar gais.

14A.2 Rhaid i'r Cwmni hysbysu S4C yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw ddiffyg, atal neu dynnu'n ôl unrhyw ardystiad sy'n ofynnol o dan gymal 14A.1, a bydd yn cymryd pob cam rhesymol i adfer neu ddisodli'r ardystiad perthnasol o fewn cyfnod rhesymol, pan fydd y Cwmni yn gweithredu a chynnal mesurau technegol a sefydliadol sy'n darparu lefel gyfatebol o ddiogelwch.

**15. Terfynu**

15.1 Gall S4C ar unrhyw adeg, trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni, derfynu'r Cytundeb hwn gydag effaith disyfyd os:

15.1.1 yw'r Cwmni yn torri'n sylweddol unrhyw rai o'i ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn sydd (a) yn methu â chael ei gywiro; neu (b) os oes modd ei gywiro, heb ei gywiro cyn pen saith (7) niwrnod i S4C dynnu sylw'r Cwmni at y fath dor-amod (neu'r fath gyfnod hirach ag y gall S4C gytuno iddo); neu

15.1.2 os bydd unrhyw rai o'r canlynol yn digwydd:

(a) os cyflwynir deiseb neu os gelwir cyfarfod at ddibenion ystyried cynnig i ddirwyn i ben neu i ddiddymu'r Cwmni, neu os derbynnir cynnig i ddirwyn y Cwmni i ben neu i'w ddiddymu, neu os gwneir gorchymyn i ddirwyn y Cwmni i ben neu orchymyn i ddiddymu'r Cwmni;

(b) os penodir derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, derbynnydd a rheolwr, gweinyddwr, secwestrydd neu swyddog tebyg dros holl neu unrhyw asedau neu fusnes y Cwmni, os gwneir cais i benodi gweinyddwr, neu os gwneir gorchymyn i benodi gweinyddwr neu os cyflwynir deiseb i benodi gweinyddwr, mewn perthynas â'r Cwmni;

(c) os ceir cynnig i wneud, cais am neu ymrwymiad i gyfaddawd neu ddealltwriaeth neu drefniant gwirfoddol, neu unrhyw gynllun, cyfamod neu drefniant arall i fodloni neu gyfrandalu unrhyw rai o ddyledion y Cwmni neu drefniant arall er budd credydwyr y Cwmni yn gyffredinol, gan y Cwmni gydag unrhyw rai o'i gredydwyr (neu unrhyw ddosbarth ohonynt) neu unrhyw rai o'i gyfranddalwyr (neu unrhyw ddosbarth ohonynt) neu unrhyw weithredu gan y Cwmni mewn unrhyw fodd i'r perwyl hwn neu gofnodi unrhyw ddogfennau gyda'r llys at ddiben sicrhau moratoriwm yn sgil adran 1A a pharagraff 7 o Atodlen A1 Ddeddf Ansolfedd 1986 mewn perthynas â'r Cwmni;

(d) os bydd unrhyw gredydwr (boed wedi ei ddiogelu gan arwystl neu fel arall) yn cymryd meddiant o neu'n atafaelu yn erbyn neu'n gweithredu rhyw broses arall dros yr holl neu ran o eiddo, asedau neu fusnes y Cwmni;

(e) os tybir nad yw'r Cwmni yn gallu talu ei ddyledion o fewn ystyr adran 123 Deddf Ansolfedd 1986 (ond bernir bod y geiriau 'wedi eu profi at fodd y llys' wedi eu hepgor o'r fath adran at y dibenion hyn);

(f) os bydd y Cwmni yn gohirio talu ei ddyledion neu'n methu neu'n cyfaddef nad yw'n medru talu ei ddyledion wrth iddynt godin ddyledus;

(g) os bydd y Cwmni yn rhoi'r gorau i gynnal y cyfan neu ran helaeth o'i fusnes;

(h) mewn achos unigolyn neu bartneriaeth, os cyflwynir deiseb i'w wneud yn fethdalwr, neu os gwneir gorchymyn o fethdalwr, mewn perthynas â'r Cwmni, neu os digwydd amgylchiadau mewn perthynas â'r Cwmni a fyddai'n galluogi cyflwyno deiseb methdaliad dan Rhan IX Deddf Ansolfedd 1986 neu os gwneir cais am orchymyn interim neu os gwneir gorchymyn interim dan adran 252 Deddf Ansolfedd 1986 mewn perthynas â'r Cwmni, neu, pan fo'r Cwmni yn bartneriaeth, os digwydd unrhyw rai o'r digwyddiadau uchod ynghylch unrhyw bartner unigol yn y bartneriaeth; neu

(i) os bydd unrhyw ddigwyddiad neu amgylchiad mewn perthynas â'r Cwmni sydd yn debyg i unrhyw un o'r cyfryw amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (h) uchod, yn digwydd o fewn unrhyw awdurdodaeth heblaw am Loegr a Chymru; neu

15.1.3 os oes newid yn rheolaeth (fel y diffinnir 'rheolaeth' yn adran 1124 Deddf Trethi Corfforaethol 2010) y Cwmni.

15.2 Gall S4C derfynu'r Cytundeb hwn trwy roi i'r Cwmni o leiaf tri (3) mis o rybudd ysgrifenedig.

15.3 Gall S4C, os y myn, ymestyn y Cytundeb hwn am hyd at 12 (deuddeg) mis pellach o ddiwedd y Tymor drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni o leiaf un (1) mis cyn diwedd y tymor. Os nad yw S4C am ymestyn y Cytundeb wedi diwedd y Tymor, yna bydd y Cytundeb yn dirwyn i ben ar ddiwedd y Tymor, a cymal 16 isod yn berthnasol.

15.4 Lle bo S4C wedi ymarfer ei opsiwn i ymestyn y Cyfnod yn unol â chymal 15.3, gall S4C benderfynu ymestyn y Cytundeb am gyfnod pellach o ddeuddeg (12) mis o ddiwedd y Cyfnod trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cyflenwr o leiaf un mis cyn y fath ddyddiad. Os nad yw S4C yn dymuno ymestyn y Cytundeb wedi'r Cyfnod, bydd y Cytundeb yn dod i ben ar ddiwedd y Cyfnod a bydd darpariaethau cymal 16 yn berthnasol.

## 16. Canlyniadau Dirwyn i Ben neu Derfynu

16.1 Wedi i'r Cytundeb ddirwyn i ben trwy dreigl amser neu gael ei derfynu sut bynnag y bo hynny'n digwydd ac yn ddarostyngedig ar bob achlysur i ddarpariaethau'r cymal 16 hwn, bydd yr holl hawliau a dyletswyddau dan y Cytundeb hwn yn dod i ben ac yn terfynu yn syth heb amharu ar unrhyw hawliau gweithredu sydd wedi cronni hyd at y pwynt hwnnw o dan y Cytundeb hwn, gan gynnwys unrhyw hawliau y gall y naill barti neu'r llall fod â hawl iddynt mewn perthynas â hawlio iawndal am dor-cytundeb gan y parti arall neu dan unrhyw indemniad.

16.2 Bydd dyletswydd S4C i dalu'r Cwmni wedi ei chyfyngu i'r fath daliadau ag sydd yn ddyledus am y Gwasanaethau sydd wedi cael eu darparu mewn gwirionedd ac yn gywir gan y Cwmni wrth fodd rhesymol S4C yn unol â thelerau'r Cytundeb hwn hyd at y Dyddiad Terfynu.

16.3 Yn syth wedi'r Dyddiad Terfynu bydd y Cwmni yn cyfleu i S4C ar ei gost ei hun:

16.3.1 yr holl eiddo sydd yn berchen i S4C sydd ym meddiant neu ofal y Cwmni neu o dan ei awdurdod neu reolaeth gan gynnwys y Prif Ffeiliau ac unrhyw a holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C ynghyd â'r holl gopïau ohonynt neu ddarnau ohonynt; a'r

16.3.2 holl ddogfennau eraill sydd yn berthnasol i'r Cytundeb hwn; ac

os bydd S4C yn gofyn iddo wneud hynny, bydd yn darparu'r holl gymorth ag y gall S4C ofyn amdano'n rhesymol er mwyn galluogi S4C neu unrhyw Gwmni (neu Gwmnïau) eraill a benodir gan S4C, i gwblhau'r gwaith o ddarparu unrhyw Wasanaethau.

DRAFT

16.4 Mae'r Cwmni yn cydnabod na fydd gan y Cwmni unrhyw hawliad mewn perthynas ag unrhyw golli cyfle i hyrwyddo ei enw neu fel arall o ba bynnag natur os yw S4C yn terfynu'r Cytundeb hwn.

16.5 Os bydd y Cytundeb hwn yn cael ei derfynu gan S4C yn sgil cymal 15.1.1 ac os bydd y gost gyfan gwbl (gan gynnwys TAW) i S4C o gwblhau'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau (boed y rheiny yn cael eu darparu neu eu cynhyrchu gan S4C yn fewnol neu gan drydydd-parti) am weddill cyfnod y Cytundeb hwn pe na bai'r terfynu wedi digwydd, uwchlaw'r cyfran o'r Ffi a fyddai'n ddyledus i'r Cwmni pe na bai'r Cytundeb hwn wedi cael ei derfynu, bydd y Cwmni yn talu i S4C ar hawliad S4C y fath swm ag sydd yn cyfateb â'r cynnydd.

16.6 Bydd y cymalau canlynol yn goroesi os bydd y Cytundeb hwn yn dirwyn i ben trwy dreigl amser neu'n cael ei derfynu sut bynnag y bo'n digwydd: 1 (Diffiniadau), 9 (Eiddo Deallusol), 11 (Gwarantau), 13 (Indemniad), 16 (Canlyniadau Dirwyn i Ben neu Derfynu), 22 (Gwrth-gyfrif), 24 (Rhwmedïau ac Ildio), 25 (Cyhoeddiadau a Chyfrinachedd), 26 (Diogelu Data a DRhG), 28 (Dehongliad) ac Atodlen 2 (Gwarantau).

## 17. Oblygiadau TUPE ar Derfynu

17.1 Gallai TUPE fod yn weithredol pan fo'r Cytundeb hwn yn dod i ben neu'n cael ei derfynu ac mae'r partïon yn cytuno, os bydd TUPE yn weithredol, y bydd contractau cyflogaeth y Cyflogedigion Perthnasol yn trosglwyddo i Gwmni Olynol ar y Dyddiad Terfynu yn unol â'r gyfraith. Os bydd TUPE yn weithredol bydd y Cwmni yn:

17.1.1 gyfrifol am dalu holl gyflogau a buddiannau eraill gan gynnwys heb gyfyngiad yr holl dâl gwyliau, taliadau TWE ('PAYE'), cyfraniadau yswiriant gwladol a chyfraniadau pensiwn y Cyflogedigion Perthnasol a chyflogedigion eraill gan gynnwys cyn-gyflogedigion y Cwmni a fu'n ymwneud â'r gwaith o ddarparu'r Gwasanaethau hyd at y Dyddiad Terfynu;

17.1.2 indemnio S4C ac yn ei chadw wedi ei hindemnio (ar gyfer ei hun ac er budd unrhyw Gwmni Olynol) rhag ac yn erbyn pob achos ac ymgyfreitha a'r holl atebolrwydd, colledion, iawndal, niwed, hawliadau, costau a threuliau (gan gynnwys treuliau cyfreithiol) sydd yn codi o unrhyw hawliad bynnag gan unrhyw gyflogai presennol neu gyn-gyflogai y Cwmni ynghylch neu mewn unrhyw ffordd sydd yn ymwneud ag unrhyw gyfnod cyn a chan gynnwys y Dyddiad Terfynu;

17.1.3 cydymffurfio â'i ddyletswyddau dan Reoliad 11 ac 13 TUPE a bydd yn indemnio S4C (ar gyfer ei hun ac er budd unrhyw Gwmni Olynol) yn erbyn pob atebolrwydd, colled, iawndal, niwed, hawliad, cost a thraul (can gynnwys treuliau cyfreithiol) sydd yn codi o neu mewn cysylltiad ag unrhyw dor-amod rheoliad 11a/neu 13 TUPE gan y Cwmni;

17.2 Os yw TUPE yn weithredol, bydd S4C yn, neu bydd S4C yn gwneud ymdrech resymol i beri bod unrhyw Gwmni Olynol yn gyfrifol am dalu'r holl gyflogau a darparu'r holl fuddiannau eraill (ynghyd ag unrhyw ddidyniadau perthnasol) ar gyfer y Cyflogedigion Perthnasol o'r Dyddiad Terfynu a bydd yn gwneud ymdrech resymol i beri bod unrhyw Gwmni Olynol yn indemnio ac yn parhau i indemnio'r Cwmni rhag ac yn erbyn pob achos a chyfreitha a phob atebolrwydd, colled, iawndal, niwed, hawliad, cost a thraul (gan gynnwys treuliau cyfreithiol) a ddyfernir neu a ddioddefir gan y Cwmni sydd yn codi yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol mewn cysylltiad âchyflogi neu derfynu cyflogaeth y Cyflogedigion Perthnasol gan Gwni Olynol.

DRAFT

17.3 Os nad yw TUPE yn weithredol pan ddaw'r Cytundeb hwn i ben neu pan y'i terfynir, bydd y Cwmni yn gyfrifol am unrhyw gostau sydd yn parhau (gan gynnwys taliadau diswyddo) parthed ei holl gyflogedigion a bydd yn indemnio S4C (er budd S4C ac er budd unrhyw Gwmni Olynol) yn erbyn holl hawliadau, costau, hawlgeisiadau, atebolrwydd a threuliau (gan gynnwys treuliau cyfreithiol) uniongyrchol sydd yn tarddu o unrhyw hawliad o ba bynnag natur gan neu ar ran unrhyw gyflogai cyfredol neu gyn-gyflogai y Cwmni neu berson sydd yn gweithio ar neu sydd wedi gweithio ar unrhyw adeg ar ddarparu'r Gwasanaethau cyn y Dyddiad Terfynu neu fel arall.

17.4 Yn ystod cyfnod o chwe (6) mis cyn i'r Cytundeb hwn ddirwyn i ben neu'n dilyn hysbysiad gan S4C i'r Cwmni o'i fwriad i derfynu neu ail-dendro'r Cytundeb hwn:

17.4.1 bydd y Cwmni yn darparu i S4C yn ddi-oed a heb gost i S4C, manylion llawn a chywir parthed y nifer, enwau, oedrannau, rhyw, hyd eu cyflogaeth, teitl swydd a thelerau ac amodau eu cyflogaeth, a fydd yn cynnwys yr holl wybodaeth am atebolrwydd i gyflogedigion dan Reoliad 11 TUPE, mewn perthynas ag, ac unrhyw fater arall sydd yn effeithio ar, unrhyw berson a gyflogwyd neu a gytundebwyd gan y Cwmni i ddarparu'r Gwasanaethau ("Cyflogedigion a Aseinir gan y Cwmni") y mae disgwyl iddo/i, os yw'n parhau i gael ei gyflogi gan y Cwmni hyd nes yn syth cyn y Dyddiad Terfynu, i fod yn Gyflogedigion Perthnasol ("Gwybodaeth Ail-Dendro");

17.4.2 bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn syth yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau o sylwedd i'r Wybodaeth Ail-Dendro os a phan y bo'r fath newidiadau yn digwydd;

17.4.3 ni fydd y Cwmni yn cynyddu neu leihau nifer y Cyflogedigion a Aseinir gan y Cwmni heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw (ac ni fydd S4C yn gwrthod y fath ganiatâd yn afresymol);

17.4.4 ni fydd y Cwmni yn trosglwyddo unrhyw rhai o'r Cyflogedigion a Aseinir gan y Cwmni i ran arall o'i fusnes neu symud cyflogedigion eraill o rywle arall yn y busnes nad ydynt o'r blaen wedi eu cyflogi ynddo neu eu cytundebu i ddarparu'r Gwasanaethau heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw (ac ni fydd S4C yn gwrthod y fath ganiatâd yn afresymol); ac

17.4.5 ni fydd y Cwmni yn cynyddu'r tâl neu wneud unrhyw newid arall i delerau ac amodau cyflogaeth y Cyflogedigion a Aseinir gan y Cwmni heb ganiatâd ysgrifenedig gan S4C ymlaen llaw (ac ni fydd S4C yn gwrthod y fath ganiatâd yn afresymol).

17.5 Bydd y Cwmni yn indemnio ac yn cadw S4C a/neu unrhyw Gwmni Olynol wedi eu hindemnio'n llawn rhag ac yn erbyn unrhyw golledion sydd yn codi o unrhyw hawliad gan unrhyw barti o ganlyniad i fethiant y Cwmni i ddarparu neu i ddarparu yn brydlon i S4C unrhyw Wyobdaeth Ail-Dendro neu fethiant i ddarparu'r Wybodaeth Ail-Dendro yn gyflawn neu o ganlyniad i unrhyw anghywirdeb o sylwedd yn y Wybodaeth Ail-Dendro yn gyflawn neu unrhyw hepgoriad yn y Wybodaeth Ail-Dendro.

## 18. Oedi a Hawliau Camu i Mewn

18.1 Os bydd S4C o'r farn bod gweithredu neu ddiffyg gweithredu gan y Cwmni yn cyfateb â thor-amod sylweddol y Cytundeb hwn gan y Cwmni neu os na fydd y Cwmni neu'r Staff yn gallu darparu'r Gwasanaethau yn unol â gofynion y Cytundeb hwn neu os bydd unrhyw rai o'r digwyddiadau a restrir yng nghymal 15.1.2 yn digwydd, neu yn debyg o ddigwydd ym marn rhesymol S4C, yna, heb amharu ar

hawliau S4C yng Nghymal 15 (Terfynu), gall S4C weithredu yn unol â chymalau 18.2 ac 18.3 isod.

18.2 Yn yr amgylchiadau a ddisgrifir yng nghymal 18.1, gall S4C gymryd unrhyw gamau y mae S4C yn eu hystyried yn angenrheidiol (naill ai ei hun neu thrwy gytundebu unrhyw berson neu bersonau eraill i gymryd y fath gamau) i leihau neu i gywiro'r fath sefyllfa. Gall y fath gamau gynnwys atal yn llwyr neu'n rhannol hawliau a dyletswyddau'r Cwmni o ran darparu'r Gwasanaethau o dan y Cytundeb hwn. Tra bod S4C yn ymarfer ei hawliau o dan y cymal hwn:

18.2.1 bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl gyfleusterau, offer, data, cofnodion, gwybodaeth a'r personél a gytundebwyd er mwyn darparu'r Gwasanaethau, ar gael i S4C; a

18.2.2 mae'r Cwmni trwy hyn yn rhoi i S4C awdurdod llawn i weithredu o ran y fath gyfleusterau, offer, data, cofnodion, gwybodaeth a phersonél y cyfeirir atynt yn is-gymal 18.2.1 fel petai S4C oedd y Cwmni.

18.3 Os bydd S4C yn manteisio ei hawliau yn unol â chymal 18.2, am gyhyd â bod ac i'r fath raddau ag y mae'r Cwmni wedi ei atal rhag darparu unrhyw Wasanaethau:

18.3.1 bydd y Cwmni yn cael ei ryddhau o'i ddyletswyddau i ddarparu Gwasanaethau o'r fath ac ni fydd yn rhaid i S4C dalu unrhyw ran o'r Ffi sydd yn daladwy yn ystod y cyfnod oedi i'r Cwmni; a

18.3.2 bydd gan S4C yr hawl i ddi-dynnu o'r Ffi yr holl gostau a threuliau rhesymol trydydd-parti a ddioddefir gan S4C wrth fanteisio ar ei hawliau dan Gymal 18.2 ("Costau") AR YR AMOD BOB AMSER os bydd S4C wedi talu Ffi o'r fath i'r Cwmni yn barod, bydd gan S4C yr hawl i adennill y Costau o'r Cwmni fel dyled i'w thalu gan y Cwmni i S4C.

18.4 Ar ddiwedd unrhyw gyfnod oedi, ac eithrio pan fo cyfnod oedi o'r fath yn dod i ben wrth derfynu'r Cytundeb hwn:

18.4.1 bydd y Tymor yn parhau ond ni fydd yn cael ei ymestyn gymaint â hyd y cyfnod oedi; a

18.4.2 bydd y Cwmni a'r Staff yn cydweithredu gydag S4C er mwyn sicrhau trosglwyddiad di-dor ac effeithlon y Gwasanaethau yn ôl i'r Cwmni.

## 19. Argyfwng

19.1 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn priodol a threfniadau argyfwng mewn grym drwy'r amser yn dilyn y Dyddiad Cychwyn, sydd yn caniatáu darpariaeth barhaus a di-dor y Gwasanaethau yn unol â'r Cynllun Argyfwng.

19.2 Bydd y Cynllun Argyfwng yn dod i rym er mwyn osgoi unrhyw amharu ar neu darfu ar ddarpariaeth y Gwasanaethau, neu er mwyn lleihau unrhyw amharu neu darfu gymaint ag y bo modd, o ganlyniad i unrhyw golled neu ddifrod i neu ddinistrio unrhyw isadeiledd, y ffaith nad oes unrhyw gyfleusterau, offer, personél, llyfrau, cyfrifon neu gofnodion cyfrifiadurol neu ffisegol a ddefnyddir gan y Cwmni wrth ddarparu'r Gwasanaethau, ar gael.

19.3 Os digwydd unrhyw ddigwyddiad a fyddai fel arall yn amharu'n sylweddol ar ddarpariaeth y Gwasanaethau i S4C, bydd y Cwmni yn gweithredu ei drefniadau wrth gefn er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau a nodir yng nghymal 19.1. Rhaid i

DRAFT

bob parti hysbysu'r llall cyn gynted ag y bydd yn ymwybodol bod digwyddiad o' fath wedi digwydd neu pan fydd yn ymwybodol o unrhyw faterion, ffeithiau neu amgylchiadau o'r fath sydd yn dynodi bod digwyddiad o'r fath yn debygol o ddigwydd.

## 20. Aseinio ac Is-Gontractio

20.1 Bydd S4C yn rhydd i aseinio, newyddu, is-gontractio neu fel arall waredu ei hawliau neu ei dyletswyddau dan y Cytundeb hwn a/neu unrhyw ran ohono a bydd y Cwmni yn arwyddo'r cyfryw weithredoedd newyddu parthed yr uchod ag y gall S4C ofyn iddo wneud yn rhesymol.

20.2 Mae'r Cytundeb hwn yn bersonol i'r Cwmni. Felly, ni fydd y Cwmni yn aseinio, yn newyddu, yn is-gontractio neu fel arall yn gwaredu ai hawliau neu ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn neu unrhyw ran ohono heb ganiatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw a bydd gan S4C yr hawl i oedi neu i wrthod ei chaniatâd yn ôl disgresiwn rhesymol S4C.

## 21. Force Majeure

21.1 Ystyr "Force Majeure" yw unrhyw un o'r digwyddiadau neu'r amgylchiadau canlynol: tân, llifogydd, trychineb genedlaethol, terfysg, gweithred Ddwyfol, gweithred o derfysgaeth, rhyfel neu wrthdaro arfog, gweithredu unrhyw ddeddf seneddol sydd yn newid statws S4C fel darlledwr neu unrhyw gyfarwyddyd gan Ofcom i S4C.

21.2 Os digwydd gweithred o Force Majeure, bydd y parti sydd yn cael ei effeithio yn rhybuddio'r llall yn ddi-oed yn ysgrifenedig a chyhyd ag y bo'r anallu i gadw at neu i gyflawni unrhyw ddyletswydd dan y Cytundeb hwn yn deillio o'r weithred honno o Force Majeure, ystyrir bod gweithredu'r dyletswyddau yr effeithir arnynt yn cael ei ohirio o ddyddiad y cyflwynir y cyfryw rybudd nes cael gwared ar y cyfryw anallu neu nes y terfynir y Cytundeb hwn yn gynnar yn unol â chymal 21.3. Mae'r ddau barti yn cytuno gwneud pob ymdrech resymol i leihau a chwtogi unrhyw gyfnod o oedi, a'r holl gostau a threuliau a gyfyd o weithred Force Majeure.

21.3 Os bydd gweithred Force Majeure yn digwydd ac yn parhau am gyfnod o ddeg diwrnod ar hugain (30) neu fwy, yna bydd gan S4C yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn trwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r Cwmni.

## 22. Gwrth-Gyfrif

Mae gan S4C yr hawl i osod yr unrhyw a phob arian sydd yn ddyledus gan y Cwmni iddi yn erbyn unrhyw swm sy'n ddyledus gan S4C i'r Cwmni boed o dan y Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall rhwng y partïon neu yn sgil unrhyw setliad neu ddyfarniad sydd yn goblygu bod iawndal neu indemniad yn ddyledus mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn, boed y ddyled yn ddyledus nawr neu ar unrhyw bryd yn y dyfodol, boed yn swm penodedig (liquidated) ai peidio ac os yw'n wirioneddol neu'n amodol. Ni fydd unrhyw weithrediad gan S4C o'i hawliau yn unol â'r cymal hwn yn niweidiol i unrhyw hawl neu rwymedi arall sydd ar gael i S4C, boed hynny yn unol â'r Cytundeb hwn neu fel arall.

## 23. Rhybuddion

23.1 Bydd unrhyw rybudd a roddir neu a wneir o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn yn ysgrifenedig a chaiff ei roi neu ei gyflwyno i'r parti sydd i'w dderbyn yn y cyfeiriad a nodir ar ddechrau'r Cytundeb hwn neu ei gyflwyno trwy drosglwyddiad e-bost i gyfeiriad e-bost y parti i'w dderbyn a bennir yng nghymal 23.3, wedi ei

nodi at sylw y person a bennir isod (neu unrhyw eilydd a hysbysir gan y parti i dderbyn y rhybudd i'r llall o bryd i'w gilydd).

23.2 Ystyrir bod pob rhybudd a gyflwynir yn unol â darpariaethau cymal 23.3, wedi ei roi neu ei gyflwyno'n ddilys, yn achos rhybudd wedi ei gyflwyno â llaw, wedi iddo gael ei gyflwyno yng nghyfeiriad y sawl sydd i'w dderbyn neu os bydd wedi ei gyflwyno i swyddfa'r post, a'r swm cywir wedi ei dalu ymlaen llaw er mwyn ei anfon gyda'r post dosbarth cyntaf, ar yr ail (2) Ddiwrnod Gwaith ar ôl ei bostio, neu os y'i cyflwynwyd trwy drosglwyddiad ffacs, ar adeg ei drosglwyddo, ar yr amod os, yn unol â'r darpariaethau uchod, y byddai unrhyw rybudd fel arall yn cael ei ystyried wedi ei gyflwyno neu ei roi ar ddiwrnod nad yw'n Ddiwrnod Gwaith, neu ar ôl 5.30 y.h. ar Ddiwrnod Gwaith, ystyrir bod y fath rybudd wedi ei roi neu ei gyflwyno am 9.00 y.b. ar y Diwrnod Gwaith dilynol.

23.3 S4C

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost: | [ ] |
| At Sylw: | [ ] |

Y Cwmni

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad e-bost: | |
| At Sylw: | [...................................] |
| | [ ] |

23.4 Ni ddehonglir neu ystyrir unrhyw beth yn y cymal 23 hwn fel cytundeb ar ran S4C i dderbyn cyflwyno unrhyw achosion cyfreithiol trwy drosglwyddiad ffacs neu e-bost.

## 24. Rhwymedïau ac Ildio

24.1 Ni fydd unrhyw ildiad gan barti ynghylch unrhyw dor-amod o ran unrhyw rai o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn yn effeithiol oni chaiff ei roi mewn y rhaglen.

24.2 Ni fydd unrhyw fethiant neu oedi ar ran y naill barti i ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi sydd gan y fath barti dan y Cytundeb hwn dan unrhyw amgylchiadau, yn amharu ar neu'n gwanhau'r fath hawl, pŵer neu rwymedi nac yn gweithredu fel ildiad ohonynt. Ni fydd unrhyw ymarferiad unigol neu rannol gan y naill barti i'r Cytundeb hwn o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi nac ar unrhyw ymarfer o unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi arall.

24.3 Mae hawliau, pwerau a rhwymedïau S4C a ddarperir dan y Cytundeb hwn yn gronnol ac nid ydynt yn nacáu unrhyw hawliau, pwerau neu rwymedïau a ddarperir gan y gyfraith.

24.4 Ni ddehonglir unrhyw ildiad o unrhyw dor-amod neu fethu â chyflawni unrhyw rai o delerau'r Cytundeb hwn fel ildiad o unrhyw dor-cytundeb neu fethiant hwyrach ac ni fydd mewn unrhyw fodd yn effeithio ar delerau eraill y Cytundeb hwn.

## 25. Cyhoeddiadau a Chyfrinachedd

25.1 Bydd y Cwmni yn defnyddio Gwybodaeth Gyfrinachol S4C at ddibenion cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn yn unig ac yn ddarostyngedig i ddarpariaethau cymal 25.2, ni fydd yn datgelu Gwybodaeth Gyfrinachol S4C i unrhyw berson arall ac eithrio dan amgylchiadau o gyfrinachedd i'r Staff os oes angen iddynt fod yn ymwybodol ohoni yn unig, a bydd y Cwmni yn cymryd pob cam ag y gall S4C fynnu

DRAFT

yn rhesymol i orfodi unrhyw ddyletswyddau cyfrinachedd o'r fath yn erbyn unrhyw Staff.

25.2 Ni fydd y cyfyngiadau ar ddatgelu gwybodaeth a gynhwysir yng nghymal 25.2 yn weithredol i unrhyw wybodaeth sydd:

25.2.1 yn gyhoeddus neu a ddaw yn gyhoeddus ac eithrio o ganlyniad i, unrhyw dorri ar y cyfyngiadau ar ddatgelu gan y Cwmni neu unrhyw Staff; neu,

25.2.2 y mae'n ofynnol i'w datgelu o dan y gyfraith neu i unrhyw gorff rheoleiddio y mae'r partïon yn gorfod cydymffurfio â'i reolau, ar yr amod bod y Cwmni, i'r graddau y caniateir yn gyfreithiol i wneud hynny, yn rho ii S4C cymaint o rybudd â phosib o'r fath ddatgeliad.

25.3 Ar derfynu'r Cytundeb hwn, bydd y Cwmni yn:

25.3.1 dychwelyd i S4C pob dogfen a deunydd (ac unrhyw gopïau) sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar Wybodaeth Gyfrinachol S4C;

25.3.2 yn dileu holl Wybodaeth Gyfrinachol S4C o systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu a dyfeisiadau a ddefnyddir ganddo, gan gynnwys systemau o'r fath a gwasanaethau storio data a ddarperir gan drydydd partïon (i'r graddau sy'n dechnegol ymarferol); ac

25.3.3 yn tystio'n ysgrifenedig ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y cymal hwn, ar yr amod y gall y Cwmni gadw dogfennau a deunydd sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar Wybodaeth Gyfrinachol S4C i'r graddau sy'n ofynnol o dan y gyfraith neu unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol.

25.4 Ac eithrio fel a nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn, nid yw S4C yn gwneud unrhyw warant neu ddatganiad boed yn echblyg neu'n ymhlyg ynglŷn â Gwybodaeth Gyfrinachol S4C.

25.5 Mae S4C yn cadw pob hawl yng Ngwybodaeth Gyfrinachol S4C. Ni roir unrhyw hawliau mewn perthynas â Gwybodaeth Gyfrinachol S4C i'r Cwmni ac eithrio'r rhai a nodir yn benodol yn y Cytundeb, ac nid oes unrhyw hawl yn ymhlyg yn y Cytundeb.

25.6 Bydd darpariaethau'r cymal 25 hwn yn parhau yn weithredol wedi terfynu'r Cytundeb hwn.

## 26. Diogelu Data a DRhG

26.1 Cyn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i S4C, bydd y Cwmni yn sicrhau bod ganddo sail gyfreithiol briodol i drosglwyddo'r Data Personol i S4C a'i fod wedi sicrhau sail gyfreithiol briodol i alluogi S4C i brosesu'r Data Personol ar gyfer pwrpas gweinyddu'r Cytundeb hwn, ac yn hysbysu S4C o'r sail gyfreithiol y mae'n dibynnu arni. Caiff yr holl Ddata Personol a gyflenwir i S4C ei brosesu gan S4C yn unol â pholisi diogelu data S4C a hysbysiad preifatrwydd perthnasol S4C sydd mewn grym o bryd i'w gilydd

26.2 Bydd y ddau barti yn cydymffurfio â holl ofynion perthnasol y Cyfreithiau Diogelu Data. Mae'r cymal 26.2 hwn yn ychwanegol i, ac nid yw'n lleddfu, disodli na chael gwared ar ddyletswydd unrhyw barti o dan y Cyfreithiau Diogelu Data.

DRAFT

26.3 Mae'r partïon yn cydnabod, ar gyfer pwrpas y Cyfreithiau Diogelu Data, mai S4C yw'r rheolwr data (*Data Controller*) a'r Cwmni yw'r prosesydd data (*Data Processor*) (fel y diffinnir *Data Controller* a *Data Processor* yn y Cyfreithiau Diogelu Data). Mae Atodlen 9 yn gosod sgôp, natur a phwrpas y prosesu gan y Cwmni, hyd y prosesu a'r mathau o ddata personol a chategorïau o Oddrych Data (*Data Subject*).

26.4 Heb amharu ar gyffredinolrwydd cymal 26.2, bydd y Cwmni, mewn perthynas ag unrhyw Ddata Personol a brosesir yn gysylltiedig â pherfformiad gan y Cwmni o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn:

26.4.1 prosesu'r Data Personol ar gyfarwyddyd ysgrifenedig S4C yn unig oni bai ei bod hi'n ofynnol i'r Cwmni brosesu Data Personol o dan gyfreithiau unrhyw aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu o dan gyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i'r Cwmni (Cyfreithiau Perthnasol). Lle bo'r Cwmni'n dibynnu ar gyfreithiau aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu gyfraith yr Undeb Ewropeaidd fel sail i brosesu Data Personol, bydd y Cwmni yn hysbysu S4C o hyn yn syth cyn gweithredu'r prosesu sy'n ofynnol gan y Cyfreithiau Perthnasol oni bai bod y Cyfreithiau Perthnasol hynny'n gwahardd y Cwmni rhag hysbysu S4C;

26.4.2 sicrhau bod ganddo mewn lle fesurau technegol a sefydliadol addas, sydd wedi eu hadolygu a'u cymeradwyo gan S4C, er mwyn diogelu rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon o'r Data Personol a rhag colled damweiniol neu ddinistrio, neu niwed i'r Data Personol, sy'n briodol i'r niwed a allai ddeillio o'r prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon neu golled damweiniol, ddinistrio neu niwed, a natur y data i'w ddiogelu, gan roi ystyriaeth i gyflwr datblygiad technolegol a'r gost o weithredu unrhyw fesurau (gall y mesurau hynny gynnwys, lle'n briodol, anonymeiddio ac encryptio'r Data Personol, sicrhau cyfrinachedd, uniondeb, argaeledd a gwydnwch ei systemau a gwasanaethau, gan sicrhau y gellir adfer argaeledd a mynediad i'r Data Personol mewn modd amserol ar ôl digwyddiad, ac asesu a gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau technegol a sefydliadol a fabwysiadwyd ganddo yn rheolaidd);

26.4.3 sicrhau bod unrhyw bersonél sydd â mynediad i ac/neu sy'n prosesu Data Personol o dan ddyletswydd i gadw'r Data Personol yn gyfrinachol, eu bod yn ddibynadwy ac yn deall dyletswyddau cytundebol y Cwmni i S4C;

26.4.4 peidio â throsglwyddo unrhyw Ddata Personol y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd oni bai ei fod wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig S4C ymlaen llaw a bod yr amodau canlynol wedi eu bodloni:

a) bod S4C neu'r Cwmni wedi darparu mesurau diogelwch addas mewn perthynas â'r trosglwyddiad;

b) bod gan oddrych y data hawliau y gellir eu gorfodi a rhwymedïau cyfreithiol effeithiol;

c) bod y Cwmni'n cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Cyfreithiau Diogelu Data gan ddarparu lefel addas o warchodaeth i unrhyw Ddata Personol a gaiff ei drosglwyddo; a

d) bod y Cwmni'n cydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol a hysbysir iddo o flaen llaw gan S4C mewn perthynas â phrosesu'r Data Personol;

26.4.5 rhoi cymorth i S4C, heb dâl, i ymateb i unrhyw gais gan oddrych data ac wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'i ddyletswyddau o dan y Cyfreithiau Diogelu Data mewn perthynas â diogelwch, hysbysiadau torri (*breach*), asesiadau effaith, ac ymgynghoriadau gydag awdurdodau goruchwylio neu reoleiddwyr;

26.4.6 hysbysu S4C heb oedi gormodol ac heb fod yn hwyrach nac o fewn 24 awr i ddod yn ymwybodol o doriad Data Personol (*data breach*);

26.4.7 ar gyfarwyddyd ysgrifenedig gan S4C, dileu neu ddychwelyd Data Personol a chopïau ohono i S4C ar derfynu'r Cytundeb;

26.4.8 gadw cofnodion a gwybodaeth cyflawn a chywir i ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r cymal 26.4 hwn ac i ganiatáu archwiliadau gan S4C neu archwiliwr dynodedig S4C;

26.4.9 apwyntio swyddog diogelu data os yw'n ofynnol iddo wneud hynny o dan y Cyfreithiau Diogelu Data neu ar gais S4C.

26.5 Nid yw S4C yn caniatáu i'r Cwmni apwyntio unrhyw brosesydd trydydd parti o Ddata Personol o dan y Cytundeb hwn NEU mae S4C yn caniatáu i'r Cwmni apwyntio [PROSESYDD TRYDYDD PARTI] fel prosesydd trydydd-parti o Ddata Personol o dan y Cytundeb hwn. Mae'r Cwmni'n cadarnhau ei fod wedi neu y bydd yn arwyddo (fel sy'n berthnasol) cytundeb ysgrifenedig gyda'r prosesydd trydydd-parti sydd ar delerau busnes safonol y trydydd parti hwnnw yn sylweddol NEU sy'n ymgorffori telerau sy'n debyg yn sylweddol i'r telerau a nodir yn y cymal 23 hwn. O ran y berthynas rhwng S4C a'r Cwmni, bydd y Cwmni'n parhau'n llwyr atebol am bob gweithred a diffyg gweithredu gan unrhyw brosesydd trydydd-parti a apwyntiwyd ganddo yn unol â'r cymal 26.5 hwn.

26.6 Gall S4C, ar unrhyw adeg ar roi dim llai na 30 diwrnod o rybudd, amrywio'r cymalau 26.1-26.5 hyn gan eu hamnewid ag unrhyw gymalau safonol rheolwr i brosesydd perthnasol neu delerau tebyg sy'n ffurfio rhan o gynllun ardystio perthnasol (a fydd yn weithredol unwaith y byddant wedi eu hamnewid trwy atodiad i'r Cytundeb hwn).

26.7 Mae'r Cwmni yn cydnabod bod S4C yn gorff cyhoeddus sydd yn ddarostyngedig i ofynion y DRhG a'r Rheoliadau a bydd yn cynorthwyo ac yn cydweithio ag S4C i alluogi S4C i gydymffurfio â'i dyletswyddau oddi tanynt ac, yn y cyswllt hwn, bydd y Cwmni ac yn peri i'r Staff:

26.7.1 ddarparu copi o'r holl wybodaeth berthnasol yn ei feddiant neu o fewn ei rym i S4C yn y ffurf mae ei angen ar S4C; a

26.7.2 darparu'r holl gymorth angenrheidiol y bydd S4C yn gofyn amdano'n rhesymol i alluogi S4C i ymateb i gais am wybodaeth cyn pen yr amser cydymffurfio a bennir yn adran 10 y DRhG neu reoliad 5 y Rheoliadau

ar yr amod bod S4C yn rhoi rhybudd ysgrifenedig rhesymol i'r Cwmni ymlaen llaw (a chaiff rhesymoldeb y rhybudd ei farnu yng nghyd-destun yr amserlen statudol ar gyfer darparu'r wybodaeth).

26.8 Bydd S4C yn gyfrifol am bennu os yw'r wybodaeth:

26.8.1 wedi'i heithrio o'i datgelu yn unol â darpariaethau DRhG neu'r Rheoliadau; neu

26.8.2 i'w datgelu mewn ymateb i gais am wybodaeth, ac ni fydd y Cwmni yn ymateb yn uniongyrchol ar unrhyw gyfrif i gais am wybodaeth oni bai y caiff ei awdurdodi yn benodol gan S4C i wneud hynny ar ran S4C.

26.9 Mae'r Cwmni yn cydnabod y gall S4C gael ei gorfodi dan DRhG, neu'r Rheoliadau, i ddatgelu gwybodaeth neu y gall benderfynu bod cydymffurfio â chais penodol am wybodaeth yn gwasanaethu'r budd cyhoeddus yn fwy na gwrthod y cais yn unol ag unrhyw eithriad perthnasol. Bydd S4C yn ymgynghori â'r Cwmni pan fo hynny'n ymarferol ac yn ystyried ei farn. Pan fo barn y Cwmni yn mynd yn groes i'r cyngor cyfreithiol y mae S4C wedi'i gael, ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn atal S4C rhag gweithredu yn unol â'r cyngor cyfreithiol a gafwyd ganddo.

26.10 Bydd y Cwmni yn sicrhau bod yr holl wybodaeth a gynhyrchir tra'n cyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn neu sydd yn gysylltiedig â'r Cytundeb hwn, yn cael ei chadw ar gyfer ei datgelu a bydd yn caniatáu S4C i archwilio'r cyfryw wybodaeth ar gais S4C o bryd i'w gilydd.

## 27. Atal llygredigaeth a Thwyll

27.1 Ni fydd y Cwmni yn cynnig neu roi, neu'n cytuno i gynnig neu roi, i S4C neu i unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, unrhyw rodd neu ystyriaeth o unrhyw fath fel cymhelliad neu wobr am wneud, peidio â gwneud, neu am fod wedi gwneud neu wedi peidio â gwneud, unrhyw weithred amhriodol mewn perthynas â sicrhau neu weithredu'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall, neu am ddangos neu ymatal rhag dangos ffafriaeth neu anffafriaeth tuag at unrhyw berson mewn perthynas â'r Cytundeb neu unrhyw gytundeb o'r fath.

27.2 Mae'r Cwmni'n gwarantu nag ydyw wedi talu comisiwn neu wedi cytuno i dalu comisiwn i S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall neu i unrhyw berson a gyflogir gan neu ar ran S4C neu unrhyw gorff cyhoeddus arall mewn perthynas â'r Cytundeb.

27.3 Bydd y Cwmni'n cymryd pob cam rhesymol i atal Twyll gan y Cwmni ac/neu ei Staff (gan gynnwys ei gyfranddalwyr, aelodau, cyfarwyddwyr) mewn perthynas ag arian a dderbynnir gan S4C a bydd yn hysbysu S4C ar unwaith os oes ganddo reswm i amau fod unrhyw Dwyll wedi digwydd, yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd.

27.4 Os bydd y Cwmni, ei Staff neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ran y Cwmni, yn ymddwyn mewn modd a waherddir gan gymalau 27.1 neu 27.2 uchod ac/neu yn cymryd rhan mewn Twyll mewn perthynas â'r Cytundeb hwn neu unrhyw gytundeb arall gyda S4C, gall S4C:

27.4.1 derfynu'r Cytundeb ac adennill gan y Cwmni unrhyw golled a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i'r terfyniad gan gynnwys unrhyw gostau rhesymol i S4C o ganlyniad i wneud trefniadau eraill ar gyfer cyflenwi'r Gwasanaethau ac unrhyw wariant ychwanegol dilynol i S4C drwy weddill y Tymor; neu

27.4.2 adennill yn llwyr gan y Cwmni unrhyw golled arall a ddioddefir gan S4C o ganlyniad i dorri'r fath gymalau.

## 28. Dehongliad

28.1 Cytunir bod y Cwmni yn ymrwymo i'r Cytundeb hwn ac yn cyflawni ei ddyletswyddau fel contractwr annibynnol, ac ni fydd dim yn y Cytundeb hwn yn awgrymu bod unrhyw fath o bartneriaeth neu fenter ar y cyd rhwng y Cwmni ac S4C, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn honni ei fod yn gweithredu fel asiant ar ran y llall.

28.2 Mae'r Cwmni yn ymrwymo ac yn cytuno y bydd y Cwmni yn ymrwymo i'r holl gytundebau sydd yn berthnasol i ddarparu'r Gwasanaethau fel pennaeth y cytundeb hwnnw, ac na fydd gan S4C unrhyw atebolrwydd fel pennaeth y Cwmni nas dadlennwyd, ac na fydd y Cwmni yn ymrwymo credyd S4C nac yn gwneud unrhyw drefniadau cytundebol ar ran S4C.

28.3 Os bydd llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb hwn neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na ellir ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sydd yn angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei dileu o'r Cytundeb hwn, a'i gwneud yn aneffeithiol ac ni fydd yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar unrhyw ddarpariaeth arall yn nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Cytundeb hwn.

28.4 Ac eithrio unrhyw ddatganiadau twyllodrus, mae'r Cytundeb hwn yn cynnwys y cytundeb cyfan rhwng y partïon i'r Cytundeb hwn mewn cysylltiad â thestun y Cytundeb hwn a bydd yn disodli pob cytundeb a dyletswydd blaenorol mewn perthynas â darparu'r Gwasanaethau ac ni ddibynnodd y naill barti ar unrhyw ddatganiad heblaw am y datganiadau a nodir yn benodol yn y Cytundeb hwn.

28.5 Nid yw'r Cytundeb hwn yn creu neu'n breinio unrhyw hawliau dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd-Bartïon) 1999 y gellir eu gweithredu gan unrhyw berson nad yw'n barti i'r Cytundeb hwn, oni bai fod gan unrhyw olynydd mewn teitl neu aseiniad o S4C yr hawl i orfodi'r Cytundeb hwn.

28.6 Ni fydd unrhyw amrywiad i'r Cytundeb hwn yn cael unrhyw effaith neu rym oni bai ei fod yn ysgrifenedig ac wedi ei lofnodi gan gynrychiolwyr awdurdodedig y partïon.

28.7 Dehonglir y Cytundeb hwn fel cytundeb a wnaed yng Nghymru, ac yn ddarostyngedig i gyfreithiau Cymru a Lloegr ac i awdurdodaeth ecsgliwsif Llysoedd Cymru a Lloegr.

DRAFT

**YN DYST** i hyn mae'r partïon i'r Cytundeb hwn wedi arwyddo'r Cytundeb hwn ar y dyddiad a'r flwyddyn a bennir uchod ar ddechrau'r Cytundeb hwn.

Arwyddwyd gan gynrychiolydd awdurdodedig
dros ac ar ran
**S4C**

Llofnod ..................................................................

Enw .......................................................................

Arwyddwyd gan gynrychiolydd awdurdodedig
dros ac ar ran
**S4C**

Llofnod ..................................................................

Enw .......................................................................

Arwyddwyd fel **Gweithred** gan
**Y CWMNI**
Drwy ei gynrychiolydd awdurdodedig

Llofnod ...................................................................

Enw ........................................................................

ym mhresenoldeb ..................................................... (Tyst)

Enw ........................................................................

Cyfeiriad ..................................................................

Swydd .......................................................................

DRAFT

## ATODLEN 1

## GWASANAETHAU

***[Nodir isod manylion y disgrifiad o bob un o'r Gwasanaethau y gellir eu cynnwys yn y Cytundeb. Cytunir ar fanylion y Cytundeb(au) terfynol rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar ofynion y ddogfen Gwahoddiad i Dendro a chyflwyniad tendr y cynigydd llwyddiannus.]***

## <u>RHAN A – LOT 1</u>

### <u>Gwasanaethau Isdeitlo</u>

### 1. Diffiniadau

1.1 Yn yr Atodlen 1 Rhan A hon bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

| | |
|---|---|
| "Isdeitlau Cymraeg" | isdeitlau iaith Gymraeg ar gyfer y Rhaglenni Perthnasol, sef isdeitlau yn cynnwys crynodeb yn yr iaith Gymraeg o'r ddeialog a/neu'r sylwebaeth ac unrhyw seiniau arwyddocaol eraill sydd yn digwydd yn ystod y Rhaglen Berthnasol; |
| "Isdeitlau i'w Llosgi" | y ffeiliau isdeitlau (yn Gymraeg neu yn Saesneg) a ddewisir gan S4C i'w 'llosgi i mewn' (BIST) i Raglenni Perthnasol, y gellir bod yn wahanol i'r rhaglen wreiddiol y cafodd yr isdeitlau eu creu yn wreiddiol (h.y. fersiwn 'omnibws' o gyfres o raglenni gwreiddiol); |
| "Isdeitlau i'w Llwytho" | yr isdeitlau ar gyfer y cyfryw Raglenni Perthnasol sydd i'w llwytho fel y'u hysbysir i'r Cwmni o dro i dro; |
| "Isdeitlau Saesneg" | isdeitlau iaith Saesneg ar gyfer y Rhaglenni Perthnasol, sef isdeitlau yn cynnwys crynodeb yn yr iaith Saesneg o'r ddeialog a/neu'r sylwebaeth ac unrhyw seiniau arwyddocaol eraill sydd yn digwydd yn ystod y Rhaglen Berthnasol; |
| "Rhaglenni Byw" | rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu ar yr un pryd â'r digwyddiadau y maent yn eu hadlewyrchu ac sydd heb gael eu rhag-recordio; |
| "Rhaglenni Cyffredinol" | y cyfryw o raglenni S4C a ddarlledir o fewn oriau brig a rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddysgwyr Cymraeg fel y'u pennir gan S4C, ac eithrio rhaglenni a gynhyrchir gan y BBC a rhaglenni cylchgrawn byw penodol megis 'Prynhawn Da' a 'Heno'; |

DRAFT

| | |
|---|---|
| "Rhaglenni Perthnasol" | y cyfryw raglen(ni) ag y'u pennir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor ac y'u hysbysir i'r Cwmni. |

## 2. Gwasanaethau Isdeitlo

2.1 Bydd y Cwmni yn cynhyrchu a chyfleu'r canlynol i S4C:

a) yr isdeitlau Saesneg ar gyfer y cyfryw Raglenni Cyffredinol a'r Rhaglenni Byw a bennir gan S4C; a

b) yr isdeitlau Cymraeg ar gyfer y cyfryw Raglenni Perthnasol a bennir gan S4C

yn unol â gofynion S4C.

2.2 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod yr Isdeitlau Saesneg yn galluogi i'r byddar a'r trwm eu clyw, y rhai di-Gymraeg a dysgwyr Cymraeg i ddilyn a mwynhau y Rhaglenni Perthnasol.

2.3 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod yr Isdeitlau Cymraeg yn galluogi i'r byddar a'r trwm eu clyw, dysgwyr uwch Cymraeg a'r rhai sy'n ystyried eu Cymraeg i fod yn ansicr i ddilyn a mwynhau y Rhaglenni Perthnasol.

2.4 Heb amharu neu gyfyngu ar natur gyffredinol yr uchod, mae'r Cwmni yn cydnabod a chytuno mai cyfrifoldeb y Cwmni ydyw i sicrhau'r canlynol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Isdeitlo:

2.4.1 cytundebu isdeitlwyr addas i gyfieithu (lle'n berthnasol) ac isdeitlo'r ddeialog a/neu'r sylwebaeth ac unrhyw seiniau arwyddocaol eraill sy'n digwydd yn ystod y Rhaglenni Perthnasol;

2.4.2 ysgrifennu neu gyfansoddi sgriptiau neu nodiadau o'r ddeialog a/neu'r sylwebaeth ac unrhyw seiniau arwyddocaol eraill sy'n digwydd yn ystod y Rhaglenni Perthnasol;

2.4.3 paratoi, recordio a gwneud pob trefniant perthnasol ar gyfer cynhyrchu'r Isdeitlau Cymraeg a'r Isdeitlau Saesneg;

2.4.4 sicrhau bod yr Isdeitlau Cymraeg a'r Isdeitlau Saesneg yn addas i genre, tôn a natur pob un o'r Rhaglenni Perthnasol a sicrhau nad yw'r Isdeitlau Cymraeg na'r Isdeitlau Saesneg yn hepgor unrhyw beth a ddywedir ar-sgrin;

2.4.5 sicrhau'r offer isdeitlo priodol a'r holl offer a Staff sydd eu hangen er mwyn creu'r Isdeitlau Cymraeg a'r Isdeitlau Saesneg angenrheidiol;

2.4.6 cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C yn unol â gofynion S4C; ac

2.4.7 yr holl waith gofynnol arall er mwyn sefydlu, cynnal a darparu'r Gwasanaethau Isdeitlo yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn.

2.5 Mewn perthynas â'r Isdeitlau Saesneg ar gyfer y Rhaglenni Byw, bydd y Cwmni'n gyfrifol am wneud pob trefniant perthnasol, gan gynnwys staffio digonol a threfniadau technegol er mwyn galluogi darllediad yr Isdeitlau Saesneg ar yr un pryd â darllediad y Rhaglenni Byw yn ystod a thrwy gydol y Tymor. Gall y fath drefniadau gynnwys cysylltu a gweithio'n effeithiol â'r cwmnïau cynhyrchu perthnasol.

DRAFT

2.6 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir o fewn yr Isdeitlau Cymraeg a'r Isdeitlau Saesneg yn amrywio o fod yn iaith lafar, iaith syml a iaith ffurfiol, yn dibynnu ar natur y Rhaglen Berthnasol.

2.7 Mae'r Cwmni'n cytuno i sicrhau bod yr Isdeitlau Cymraeg a'r Isdeitlau Saesneg yn cynnig dehongliad synhwyrol o gynnwys y Rhaglenni Perthnasol a'u bod wedi'u hamseru'n gywir mewn perthynas â'r ddeialog a/neu'r hyn sy'n digwydd ar y sgrin yn ystod y Rhaglenni Perthnasol.

2.7 Bydd y Cwmni'n sicrhau y caiff yr Isdeitlau Saesneg ar gyfer y Rhaglenni Byw eu 'cofnodi' ar fformat ffeil .stl neu'r cyfryw fformat arall yn unol â gofynion S4C, er mwyn galluogi S4C i gynnwys yr isdeitlau ar wasanaeth dal-i-fyny S4C, o fewn ail-ddarllediadau neu fel rhan o ddarpariaeth ehangach.

**3. Dyletswyddau Cyffredinol**

3.1 Mae'r Cwmni'n cydnabod bod S4C yn dymuno i rai rhaglenni penodol gael eu darlledu gydag isdeitlau wedi eu llosgi ar-sgrin (BIST), megis rhaglen omnibws 'Pobol y Cwm' a gynhyrchir gan y BBC, ail-ddarllediadau penodol o ddramâu ar nos Sul ac ail-ddarllediadau 'Rownd a Rownd'. Bydd y Cwmni'n gyfrifol am addasu'r Isdeitlau i'w Llosgi ar gyfer creu BIST yn unol â gofynion S4C.

3.2 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y BIST yn caniatáu i wylwyr di-Gymraeg fedru dilyn a mwynhau'r Rhaglenni Perthnasol.

3.3 Bydd y Cwmni yn:

3.3.1 gwneud gwiriad ieithyddol sylfaenol a thechnegol o'r Isdeitlau i'w Llosgi yn unol â gofynion rhesymol S4C;

3.3.2 paratoi, recordio a gwneud pob trefniant angenrheidiol er mwyn cynhyrchu'r ffeiliau BIST yn unol â gofynion S4C; ac

3.3.3 yn gweithio gydag adran MCR y BBC er mwyn galluogi 'llosgi'r Isdeitlau i'w Llosgi arno i'r Rhaglenni Perthnasol yn unol â gofynion S4C.

3.4 Bydd y Cwmni'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd â thîm isdeitlo S4C a Chynrychiolydd S4C yn ystod cyfnod cynhyrchu'r Isdeitlau Cymraeg a'r Isdeitlau Saesneg ac ar ôl cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C, a bydd y Cwmni'n cydweithio gyda S4C fel sy'n ofynnol trwy gydol y Tymor.

3.5 Bydd y Cwmni'n darparu'r holl wasanaethau a dyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl wrth sefydliad sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaeth isdeitlo neu y gall S4C ei wneud yn ofynnol i'r Cwmni ei ddarparu yn unol â gofynion y Cytundeb hwn.

**4. Rhaglenni Perthnasol**

4.1 Mae'r Cwmni yn cydnabod a chytuno mai S4C fydd yn gyfrifol am bennu nifer a manylion y Rhaglenni Perthnasol sydd i'w hisdeitlo, eu haddasu ar gyfer isdeitlau i'w llosgi a'u llwytho yn ystod y Tymor. Bydd S4C yn cyfathrebu nifer a manylion y Rhaglenni Perthnasol i'r Cwmni ar sail misol yn ystod y Tymor.

4.2 Mae'r Cwmni'n cytuno i ddarparu'r Gwasanaethau mewn perthynas â'r Rhaglenni Perthnasol a hysbysir iddo o dro i dro yn ystod y Tymor. Mae'r Cwmni'n cydnabod y gall y nifer o Raglenni Perthnasol amrywio o wythnos i wythnos.

## 5. Deunydd S4C

5.1 Bydd S4C yn darparu neu'n sicrhau y bydd cynhyrchwyr y Rhaglenni Perthnasol yn darparu i'r Cwmni y Prif Ffeiliau o'r Rhaglenni Perthnasol (ac eithrio Rhaglenni Byw) fel ffeiliau MPEG trwy system drosglwyddo ffeiliau neu wasanaeth tebyg.

5.2 Mae'r Cwmni'n cydnabod y gall fod yn ofynnol i'r Cwmni gyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C ar fyr rybudd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd gofyn i'r Cwmni ymateb yn hyblyg er mwyn sicrhau cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C cyn gynted â phosib cyn y dyddiad darlledu perthnasol.

5.3 Mewn perthynas ag unrhyw Raglenni Perthnasol sy'n Rhaglenni Byw, bydd S4C yn darparu neu'n sicrhau y bydd cynhyrchwyr y Rhaglenni Perthnasol yn darparu i'r Cwmni 'feed' fideo i'r Rhaglenni Byw.

5.4 Mewn perthynas ag unrhyw Raglenni Perthnasol sy'n Rhaglenni Byw, bydd S4C yn gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau bod cynhyrchwyr y fath Raglenni Perthnasol yn darparu i'r Cwmni o flaen llaw eitemau wedi eu golygu a fydd yn ffurfio rhan o'r Rhaglenni Perthnasol cyn gynted â phosib cyn amser darlledu'r Rhaglenni Perthnasol.

5.5 Mewn perthynas ag unrhyw Raglenni Perthnasol sy'n Rhaglenni Byw, bydd y Cwmni'n cydweithio ag S4C er mwyn sicrhau gweithdrefnau addas ar gyfer cyfathrebu â chynhyrchwyr y Rhaglenni Perthnasol cyn gynted â phosib cyn amser darlledu'r Rhaglenni Perthnasol.

5.6 Bydd y Cwmni'n hysbysu S4C yn syth os na fydd yn derbyn unrhyw un neu fwy o'r Prif Ffeiliau neu unrhyw ddeunyddiau angenrheidiol arall oddi wrth S4C neu unrhyw drydydd parti erbyn ei ddyddiad cyfleu disgwyliedig.

5.7 Cyfrifoldeb y Cwmni fydd yswirio a chadw'n saff a diogel y Prif Ffeiliau a'r holl eitemau ac offer arall a gyflëir i'r Cwmni mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau. Bydd y Cwmni'n dychwelyd i S4C neu'n dinistrio'r Prif Ffeiliau ac unrhyw ddeunydd arall a gyflëwyd i'r Cwmni yn dilyn cyfleu'r Deunydd Cyfleu ar gyfer y Rhaglen Berthnasol honno i S4C.

## 6. Gofynion Cyfleu

6.1 Y Deunydd Cyfleu yw:

a) yr Isdeitlau Saesneg ar gyfer Rhaglenni Cyffredinol ar fformat ffeil .stl;
b) yr Isdeitlau Cymraeg ar fformat ffeil .stl;
c) yr Isdeitlau Saesneg ar gyfer Rhaglenni Byw trwy ddolen TCP/IP;
d) yr Isdeitlau Saesneg ar gyfer Rhaglenni Byw wedi eu cofnodi ar fformat ffeil .stl; ac
e) y ffeiliau isdeitlau wedi eu llosgi ar fformat ffeil .stl.

DRAFT

6.2 Bydd y Cwmni'n trafod a chytuno ar amserlen gyfleu ar gyfer y Deunydd Cyfleu gyda thîm isdeitlo S4C. Bydd y Cwmni'n cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C erbyn y dyddiad cyfleu a gytunwyd.

6.3 Bydd y Cwmni'n sicrhau y bydd yr Isdeitlau i'w Llwytho wedi eu llwytho i'r System Lwytho erbyn y dyddiad cyfleu perthnasol.

6.4 Bydd y Cwmni'n llwytho'r Isdeitlau i'w Llwytho i'r System Lwytho gan sicrhau eu bod yn gywir ac yn addas i systemau darlledu isdeitlau S4C ac y gellir eu darlledu'n barhaus heb unrhyw ddiffygion, gwallau neu namau.

6.5 Bydd y Cwmni'n cysylltu'r Isdeitlau i'w Llwytho i system reoli gorsaf ddarlledu S4C (BSM).

6.6 Bydd y Cwmni'n archifo'n electronig yr Isdeitlau i'w Llwytho ar ôl eu hadolygu a'u cysylltu i BSM ar system archifo S4C.

6.7 Os yw'n ymddangos na fydd y Cwmni yn gallu cadw at amserlen gyfleu y Deunydd Cyfleu, bydd y Cwmni yn hysbysu S4C o hyn yn syth gan ddarparu esboniad llawn.

6.8 Os bydd y Cwmni'n cyfleu'r Deunydd Cyfleu yn hwyr, bydd y Cwmni'n ad-dalu i S4C unrhyw gostau ychwanegol a achoswyd i S4C o ganlyniad i'r oedi gan gynnwys ad-dalu i S4C unrhyw gostau goramser staff S4C (boed yn gyflogeion neu staff llawrydd) neu gostau staff trydydd parti a achoswyd.

**7. Safle**

7.1 Bydd hi'n ofynnol i'r Cwmni ddarparu elfennau o'r Gwasanaethau Isdeitlo o Safle S4C.

**8. Offer a Systemau S4C**

8.1 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod ganddo offer addas ac effeithiol ar gyfer cynhyrchu'r isdeitlau a bod ganddo fynediad dibynadwy a chadarn i'r we, gyda chefnogaeth thechnegol llawn er mwyn medru derbyn y Rhaglenni Perthnasol a chyfleu'r Deunydd Cyfleu yn unol â gofynion technegol S4C o dro i dro yn ystod y Tymor.

8.2 [manylion i'w cynnwys yn dilyn y tendr]

**9. Sicrhau Safonau**

9.1 Bydd y Cwmni sicrhau cywirdeb o 100% o ran sillafu a gramadeg o fewn yr Isdeitlau Cymraeg a'r Isdeitlau Saesneg ar Raglenni Cyffredinol.

9.2 Bydd y Cwmni yn sicrhau cynnal safonau uchel y Gwasanaethau drwy **[manylion i'w cynnwys yn deillio o'r ymatebion i'r tendr].**

9.3 Bydd gan y Cwmni systemau rheoli addas mewn lle, gan gynnwys proses adolygu mewnol mewn perthynas â iaith, techneg isdeitlo, mynegiant ac ystyr, er mwyn sicrhau Isdeitlau di-dor o safon uchel cyson heb unrhyw wallau na chamgymeriadau sillafu.

**RHAN B – LOT 2**

**Gwasanaeth Sain Ddisgrifio**

**1. Diffiniadau**

1.1 Yn yr Atodlen 1 Rhan B hon bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

| | |
|---|---|
| "Deunydd Sain Ddisgrifio" | trac-sain sain ddisgrifio Cymraeg ar gyfer pob un o'r Rhaglenni Perthnasol; |
| "Rhaglenni Perthnasol" | y cyfryw raglen(ni) ag y'u pennir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor ac y'u hysbysir i'r Cwmni. |

**2. Gwasanaethau**

2.1 Bydd y Cwmni yn darparu gwasanaeth sain ddisgrifio Cymraeg cynhwysfawr i S4C ac yn cyfleu i S4C y Deunydd Sain Ddisgrifio yn unol â gofynion S4C.

2.2 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y Deunydd Sain Ddisgrifio yn galluogi i'r dall a phobl sydd â golwg rhannol i ddilyn a mwynhau y Rhaglenni Perthnasol.

2.3 Bydd y Deunydd Sain Ddisgrifio'n cynnwys sylwebaeth lafar i lenwi'r cyfnodau o fewn y Rhaglenni Perthnasol lle nad oes deialog. Bydd y sylwebaeth yn cynnwys disgrifiadau o'r plot ac/neu gynnwys y Rhaglenni Perthnasol gan gynnwys, heb gyfyngiad, disgrifiadau o ddigwyddiadau, osgo corff, gwisgoedd a golygfeydd.

2.4 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod un person yn adrodd y trac sain ar gyfer Rhaglen Berthnasol yn ei chyfanrwydd, a lle bo'r Rhaglen Berthnasol yn gyfres, y gyfres yn ei chyfanrwydd. Bydd y Cwmni'n sicrhau bod yr adroddwr yn addas ar gyfer genre a natur y Rhaglen Berthnasol.

2.5 Bydd y Cwmni'n sicrhau amrywiaeth o adroddwyr gwahanol ar gyfer Rhaglenni Perthnasol gwahanol.

2.6 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y sgript a'r adrodd a gynhwysir o fewn y Deunydd Sain Ddisgrifio mewn perthynas â phob Rhaglen Berthnasol o'r safon uchaf posib a'i fod yn gywir yn ramadegol ac yn ieithyddol.

2.7 Mae'r Cwmni yn cydnabod a chytuno mai'r Cwmni fydd yn gyfrifol am ac yn atebol i gyflawni'r canlynol mewn perthynas â'r Gwasanaethau Sain Ddisgrifio:

2.7.1 ysgrifennu neu gyfansoddi sgriptiau neu nodiadau o'r ddeialog a/neu'r sylwebaeth ac unrhyw seiniau arwyddocaol eraill sy'n digwydd yn ystod y Rhaglenni Perthnasol;

2.7.2 cytundebu ag adroddwyr addas i gyfleu'r sain ddisgrifio;

2.7.3 sicrhau bod y Deunydd Sain Ddisgrifio yn briodol i genre, tôn a natur pob un o'r Rhaglenni Perthnasol;

2.7.4 paratoi, recordio a gwneud pob trefniant perthnasol ar gyfer cynhyrchu'r Deunydd Sain Ddisgrifio ar gyfer pob un o'r Rhaglenni Perthnasol;

2.7.5 cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C yn unol â gofynion S4C; a

2.7.6 yr holl waith angenrheidiol er mwyn darparu'r Gwasanaethau a chynhyrchu'r Deunydd Sain Ddisgrifio yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn.

2.8 Bydd y Cwmni'n darparu'r holl wasanaethau a dyletswyddau eraill y mae disgwyl i sefydliad sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaeth sain ddisgrifio eu cyflawni neu y gall S4C yn rhesymol ei fynnu bod y Cwmni yn eu cyflawni neu eu darparu yn unol â gofynion y Gwasanaethau.

**3. Rhaglenni Perthnasol**

3.1 Mae'r Cwmni yn cydnabod a chytuno mai S4C fydd yn gyfrifol am bennu nifer a manylion y Rhaglenni Perthnasol sydd i'w sain ddisgrifio. Bydd S4C yn cyfathrebu nifer a manylion y Rhaglenni Perthnasol i'r Cwmni ar sail misol.

3.2 Mae'r Cwmni'n cytuno i ddarparu'r Gwasanaethau mewn perthynas â'r Rhaglenni Perthnasol a hysbysir iddo o dro i dro yn ystod y Tymor. Mae'r Cwmni'n cydnabod y gall y nifer o Raglenni Perthnasol amrywio bob mis, ac yn benodol gall fod y nifer o oriau o Raglenni Perthnasol fod yn llawer is yn ystod misoedd yr haf, ac yn uwch o gwmpas adeg y Nadolig.

**4. Gofynion Cyfleu**

4.1 Y Deunydd Cyfleu yw: y Deunydd Sain Ddisgrifio ar format ffeil .WAV yn unol â gofynion S4C.

4.2 Bydd S4C yn darparu i'r Cwmni y Prif Ffeiliau ar fformat ffeil mp4 gyda chod amser wedi ei losgi arno (BITC).

4.3 Bydd S4C yn gwneud ei hymdrechion rhesymol i ddarparu'r Prif Ffeiliau i'r Cwmni cyn gynted â phosib cyn y dyddiad cyfleu perthnasol.

4.4 Bydd y Cwmni'n hysbysu S4C yn syth os na fydd yn derbyn unrhyw un neu fwy o'r Prif Ffeiliau neu unrhyw ddeunyddiau angenrheidiol arall oddi wrth S4C neu unrhyw drydydd parti erbyn ei ddyddiad cyfleu disgwyliedig.

4.5 Bydd y Cwmni'n cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C erbyn y dyddiad cyfleu perthnasol.

4.6 Bydd y Cwmni yn cadw copi o'r ffeil sain ddisgrifiad WAV am gyfnod o chwe mis o'u cyflwyno i S4C.

4.7 Mae'r Cwmni'n cydnabod, o dro i dro, na fydd modd i S4C sicrhau darpariaeth y Prif Ffeiliau i'r Cwmni o fewn yr amserlen a nodir ym mharagraff 4.3 uchod a gall fod yn ofynnol i'r Cwmni gyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C ar fyr rybudd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cwmni'n ymateb yn hyblyg er mwyn sicrhau cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C erbyn y dyddiad cyfleu perthnasol.

4.8 Os yw'n ymddangos na fydd y Cwmni yn gallu cadw at amserlen gyfleu y Deunydd Cyfleu, bydd y Cwmni yn hysbysu S4C o hyn yn syth gan ddarparu esboniad llawn.

4.9 Os bydd y Cwmni'n cyfleu'r Deunydd Cyfleu yn hwyr, bydd y Cwmni'n ad-dalu i S4C unrhyw gostau ychwanegol a achoswyd i S4C o ganlyniad i'r oedi gan gynnwys ad-dalu i S4C unrhyw gostau goramser staff S4C (boed yn gyflogeion neu staff llawrydd) neu gostau staff trydydd parti a achoswyd.

4.10 Cyfrifoldeb y Cwmni fydd yswirio a chadw'n saff a diogel y Prif Ffeiliau a'r holl eitemau ac offer arall a gyflëir i'r Cwmni mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau. Bydd y Cwmni'n dychwelyd i S4C neu'n dinistrio'r Prif Ffeiliau ac unrhyw ddeunydd arall a gyflëwyd i'r Cwmni yn dilyn cyfleu'r Deunydd Cyfleu ar gyfer y Rhaglen Berthnasol honno i S4C.

**5. Offer**

5.1 Cyfrifoldeb y Cwmni fydd sicrhau bod ganddo'r offer a chyfarpar priodol ac effeithiol er mwyn darparu'r Gwasanaethau Sain Ddisgrifio.

5.2 [i'w gwblhau]

**6. Gofynion Technegol**

6.1 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y Deunydd Sain Ddisgrifio'n cydymffurfio â Gofynion Technegol S4C (sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C): https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/canllawiau

6.2 Heb amharu ar gyffredinolrwydd yr uchod, bydd y Cwmni'n sicrhau'r canlynol mewn perthynas â'r Deunydd Sain Ddisgrifio:

a) bod y sain ddisgrifio ar drac 1;
b) beit tremio a phylu ar drac 2.

**7. Sicrhau safonau**

7.1 Bydd y Cwmni yn sicrhau cynnal safonau uchel y Gwasanaethau drwy sicrhau bod y Deunydd Sain Ddisgrifio yn mynd trwy broses wirio mewnol drylwyr cyn eu cyfleu i S4C a **[manylion i'w cwblhau yn dilyn gwobrwyo'r tendr]**.

DRAFT

**RHAN C – LOT 3**

**Gwasanaeth Arwyddeg ar y Sgrin**

**1. Diffiniadau**

1.1 Yn yr Atodlen 1 Rhan C hon bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

| | |
|---|---|
| "Deunydd Fideo" | y deunydd fideo yn cynnwys dehonglydd yn cyfleu'r ddeialog a'r synau sydd yn digwydd o fewn y Rhaglen Berthnasol yn yr Iaith ac sydd yn ategol i'r Rhaglen Berthnasol ac sydd â'r pwrpas o gynorthwyo gwylwyr byddar i ddilyn a mwynhau'r Rhaglenni Perthnasol; |
| "Iaith" | Iaith Arwyddo Prydeinig (y'i gelwir BSL) gan ymgorffori arwyddion rhanbarthol Cymreig fel y bo'n briodol; |
| "Prif Ffeiliau Arwyddo" | y prif gopi terfynol o'r Rhaglen Berthnasol sydd yn cynnwys y Deunydd Fideo wedi ei arosod yn y fformat gofynnol ac fel arall yn unol â'r Gofynion Cyfleu; |
| "Rhaglenni Perthnasol" | y cyfryw raglen(ni) ag y'u pennir gan S4C o bryd i'w gilydd yn ystod y Tymor ac y'u hysbysir i'r Cwmni. |

**2. Gwasanaethau**

2.1 Bydd y Cwmni yn darparu gwasanaeth arwyddo ar-sgrin cynhwysfawr i S4C ac yn cyfleu i S4C y Prif Ffeiliau Arwyddo yn yr Iaith yn unol â gofynion S4C.

2.2 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y Prif Ffeiliau Arwyddo yn galluogi i wylwyr byddar i ddilyn a mwynhau y Rhaglenni Perthnasol.

2.3 Mae'r Cwmni yn cydnabod a chytuno mai'r Cwmni fydd yn gyfrifol am ac yn atebol i gyflawni'r canlynol mewn perthynas â'r Gwasanaethau:

2.3.1 ysgrifennu neu gyfansoddi sgriptiau neu nodiadau o'r ddeialog a/neu'r sylwebaeth ac unrhyw seiniau arwyddocaol eraill sy'n digwydd yn ystod y Rhaglenni Perthnasol yn yr Iaith;

2.3.2 cytundebu â dehonglwyr addas i gyfleu'r ddeialog a'r seiniau o fewn y Rhaglenni Perthnasol yn yr Iaith;

2.3.3 cynhyrchu, recordio a gwneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer cynhyrchu'r Deunydd Fideo ar gyfer pob un o'r Rhaglenni Perthnasol;

2.3.4 sicrhau bod y Deunydd Fideo yn briodol i genre, tôn a natur pob un o'r Rhaglenni Perthnasol;

2.3.5 ymgorffori'r Deunydd Fideo neu ei osod yn ôl neu ar y Prif Ffeiliau er mwyn cynhyrchu'r Prif Ffeiliau Arwyddo a chyfleu'r Prif Ffeiliau Arwyddo i S4C yn unol â gofynion S4C;

2.3.6 yr holl waith angenrheidiol er mwyn darparu'r Gwasanaethau a chynhyrchu'r Prif Ffeiliau Arwyddo yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn.

2.4 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y Prif Ffeiliau Arwyddo'n cyfleu delwedd y dehonglwr ar ochr dde'r sgrin ac nad yw'r dehonglwr yn llenwi mwy nag un rhan o chwech o'r sgrin.

2.5 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y dehonglwr yn defnyddio technegau addas i dynnu sylw at y sawl sy'n siarad ac at effeithiau sain arwyddocaol o fewn y Rhaglenni Perthnasol fel sy'n briodol.

2.6 Bydd y Cwmni'n darparu'r holl wasanaethau a dyletswyddau eraill y mae disgwyl i sefydliad sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaeth arwyddo eu cyflawni neu y gall S4C yn rhesymol ei fynnu bod y Cwmni yn eu cyflawni neu eu darparu yn unol â gofynion y Gwasanaethau.

**3. Rhaglenni Perthnasol**

3.1 Mae'r Cwmni yn cydnabod a chytuno mai S4C fydd yn gyfrifol am bennu nifer a manylion y Rhaglenni Perthnasol sydd i'w harwyddo. Bydd S4C yn cyfathrebu nifer a manylion y Rhaglenni Perthnasol i'r Cwmni ar sail misol.

3.2 Mae'r Cwmni'n cytuno i ddarparu'r Gwasanaethau mewn perthynas â'r Rhaglenni Perthnasol a hysbysir iddo o dro i dro yn ystod y Tymor.

**4. Gofynion Cyfleu**

4.1 Y Deunydd Cyfleu yw: y Prif Ffeiliau Arwyddo ar fformat ffeil AS11.

4.2 Bydd S4C yn cyfleu i'r Cwmni y Prif Ffeiliau ar fformat ffeil AS11 neu'r fath fformat arall a ddefnyddir gan S4C yn ystod y Tymor, ynghyd â ffeil isdeitlo ar gyfer y Rhaglenni Perthnasol ar fformat .stl neu'r fath fformat arall a ddefnyddir gan S4C yn ystod y Tymor.

4.3 Bydd S4C yn gwneud ymdrechion rhesymol i ddarparu i'r Cwmni y Prif Ffeiliau cyn gynted â phosib cyn y dyddiad cyfleu perthnasol.

4.4 Bydd y Cwmni'n hysbysu S4C yn syth os na fydd yn derbyn unrhyw un neu fwy o'r Prif Ffeiliau neu unrhyw ddeunyddiau angenrheidiol arall oddi wrth S4C neu unrhyw drydydd parti erbyn ei ddyddiad cyfleu disgwyliedig.

4.5 Bydd y Cwmni'n cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C erbyn ei ddyddiad cyfleu perthnasol.

4.6 Mae'r Cwmni'n cydnabod, o dro i dro, gall fod yn ofynnol i'r Cwmni gyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C ar fyr rybudd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y Cwmni'n ymateb yn hyblyg er mwyn sicrhau cyfleu'r Deunydd Cyfleu i S4C erbyn ei ddyddiad cyfleu perthnasol.

4.7 Os yw'n ymddangos na fydd y Cwmni yn gallu cadw at amserlen gyfleu y Deunydd Cyfleu, bydd y Cwmni yn hysbysu S4C o hyn yn syth gan ddarparu esboniad llawn.

4.8 Os bydd y Cwmni'n cyfleu'r Deunydd Cyfleu yn hwyr, bydd y Cwmni'n ad-dalu i S4C unrhyw gostau ychwanegol a achoswyd i S4C o ganlyniad i'r oedi gan gynnwys ad-dalu i S4C unrhyw gostau goramser staff S4C (boed yn gyflogeion neu staff llawrydd) neu gostau staff trydydd parti a achoswyd.

DRAFT

4.9 Cyfrifoldeb y Cwmni fydd yswirio a chadw'n saff a diogel y Prif Ffeiliau a'r holl eitemau ac offer arall a gyflëir i'r Cwmni mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau. Bydd y Cwmni'n dychwelyd i S4C neu'n dinistrio'r Prif Ffeiliau ac unrhyw ddeunydd arall a gyflëwyd i'r Cwmni yn dilyn cyfleu'r Deunydd Cyfleu ar gyfer y Rhaglen Berthnasol honno i S4C.

4.10 Bydd y Cwmni yn gyfrifol am gadw copi o'r dehongliad arwyddeg am gyfnod o chwe mis o'u cyflwyno i S4C.

**5. Offer**

5.1 [i'w gwblhau yn dilyn y tendr]

5.2 Cyfrifoldeb y Cwmni fydd sicrhau bod ganddo'r offer a chyfarpar priodol ac effeithiol er mwyn darparu'r Gwasanaethau Arwyddeg Ar y Sgrin gan gynnwys heb gyfyngiad offer a chyfleusterau stiwdio safon-darlledu manylder uchel.

**6. Gofynion Technegol**

6.1 Bydd y Cwmni'n sicrhau bod y Prif Ffeiliau Arwyddo'n cydymffurfio â Gofynion Technegol S4C (sydd ar gael ar wefan gynhyrchu S4C): https://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/page/canllawiau

**7. Sicrhau safonau**

7.1 Bydd y Cwmni yn sicrhau cynnal safonau uchel y Gwasanaethau drwy [**manylion i'w cynnwys yn deillio o'r ymatebion i'r tendr].**

DRAFT

## ATODLEN 2

## GWARANTAU

**[Sylwer: Efallai y bydd angen diwygio gwarantau sydd yn benodol i gwmnïau cyfyngedig, yn unol â statws cyfreithiol y Cwmni.]**

1. Mae'r Cwmni yn addo, yn gwarantu ac yn ymrwymo ag S4C fel a ganlyn:

a) y mae wedi ei sefydlu a'i sefydlu a'i ymgorffori yn ddilys o dan gyfreithiau Cymru a Lloegr a bod ganddo y pŵer corfforaethol i berchen ar ei asedau ei hun ac i gynnal a rhedeg ei fusnes yn y modd y mae'n cael ei gynnal a'i redeg ar hyn o bryd;

b) bod ganddo y pŵer i arwyddo'r Cytundeb hwn ac i ymarfer ei hawliau ac i gyflawni ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn;

c) nad yw arwyddo, cyfleu a gweithredu'r Cytundeb hwn gan y Cwmni yn mynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth:

(i) ym Memorandwm ac Erthyglau Ymgorffori'r Cwmni;

(ii) mewn unrhyw orchymyn neu archddyfarniad gan unrhyw lys neu gyflafareddwr; neu

(iii) mewn unrhyw ddyletswydd sydd yn rhwymo'r Cwmni neu unrhyw rai o'i asedau neu ei enillion;

d) bod y wybodaeth, y datganiadau a'r materion ffeithiol eraill a gofnodwyd ar bapur yn ysgrifenedig i S4C gan y Cwmni mewn cysylltiad â neu'n tarddu o'i dendr, yn gywir a chyflawn ymhob agwedd o sylwedd ar y dyddiad y cyflwynwyd hwy i S4C, ac y bydd y Cwmni yn hysbysu S4C yn syth os na fydd gwybodaeth o'r fath yn gywir ac yn parhau i fod yn gywir a chyflawn;

e) nid oes unrhyw hawliad yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ac nid oes unrhyw gyfreitha, cyflafareddiad nac achosion gweinyddol ar droed ar hyn o bryd nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cwmni, yn yr arfaeth neu wedi eu bygwth yn erbyn y Cwmni neu ei asedau sydd yn arwyddocaol ac a fydd yn cael neu sydd yn debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r Cwmni i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

f) nid yw'n rhwym i unrhyw ddyletswydd arall, y byddai cydymffurfio â hi yn cael neu'n debygol o gael effaith andwyol sylweddol ar allu'r Cwmni i gyflawni ei ddyletswyddau o dan y Cytundeb hwn;

g) nid oes unrhyw achosion neu gamau eraill wedi eu cymryd a heb eu rhyddhau (nac, hyd eithaf gwybodaeth y Cwmni, wedi eu bygwth) ar gyfer dirwyn y Cwmni i ben neu ei ddiddymu neu er mwyn penodi derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, diddymwr, ymddiriedolwr neu swyddog tebyg parthed unrhyw rai o'i asedau neu ei enillion;

h) wrth ddarparu'r Gwasanaethau, na fydd y Cwmni yn a bydd y Cwmni yn sicrhau na fydd y Staff yn tarfu ar unrhyw hawliau unrhyw berson, ac na fydd yn

cyflawni unrhyw weithred enllibus, cableddus na difenwol, nac yn torri darpariaethau unrhyw Gyfreithiau Perthnasol;

i) [mae gan y Cwmni, neu fe fydd gan y Cwmni o'r Dyddiad Cychwyn, fesurau diogelwch technegol a sefydliadol digonol mewn grym, gan gynnwys offer a meddalwedd bâs data, sydd yn llywodraethu'r gwaith o brosesu'r Data Personol ac arferion gwaith unrhyw gyflogedigion sydd yn ymwneud â gwaith prosesu o'r fath yn unol â gofynion Cyfreithiau Diogelu Data.]

DRAFFT

## ATODLEN 3

## PERSONÉL ALLWEDDOL

***I'w cytuno rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]***

DRAFFT

**ATODLEN 4**

**[FFI]**

***[Atodlen i'w chynnwys yn ô yr angen yn dilyn cytundeb rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y tendr llwyddiannus.]***

DRAFFT

## ATODLEN 5

## Y DREFN GYFATHREBU

***[Cytunir ar fanylion y Drefn Gyfathrebu rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus yn seiliedig ar y ddogfen gwahoddiad i dendro a'r tendr llwyddiannus. Rhaid i'r drefn nodi manylion ynghylch:***

***(B)*** ***dyletswyddau adrodd y Cwmni i S4C gan gynnwys natur, cynnwys, cynllun ac amlder adroddiadau i'w darparu gan y Cwmni i S4C mewn cysylltiad â'r ymholiadau, y sylwadau a'r cwynion a dderbynnir;***

***(C)*** ***dyletswyddau adrodd y Cwmni i S4C mewn cysylltiad â gweithrediad y Gwasanaeth gan gynnwys materion staffio, materion technegol a materion eraill; a'r***

***(D)*** ***gweithdrefnau er mwyn darparu gwybodaeth gan S4C i'r Cwmni mewn cysylltiad â Gwasanaethau S4C a chyfrifoldebau staff S4C.]***

DRAFFT

DRAFT

## ATODLEN 6

## CYTUNDEB CYFRINACHEDD

Gwneir y Cytundeb hwn y [*nodwch y dyddiad*] o [*nodwch y mis*] 20 [*nodwch y flwyddyn*]

RHWNG

(1) [*Nodwch enw'r Cwmni*] o [*Nodwch Gyfeiriad y Cwmni*] ("**y Cwmni**"); a

(2) [*Nodwch enw'r Unigolyn*] o [*Nodwch gyfeiriad cartref yr Unigolyn*] (**"yr Unigolyn**")

CYFLWYNIAD

Mae'r Unigolyn yn cytuno y bydd yn cael ac yn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol sydd yn ymwneud â busnes S4C yn ystod cyfnod ei g/chyflogaeth neu gytundebu (pa bynnag sydd yn briodol) gyda'r Cwmni. Mae'r Cwmni yn barod i ganiatáu i'r Unigolyn ddefnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol yn unol â darpariaethau'r Cytundeb hwn.

**CYTUNIR** fel a ganlyn:

**1. Diffiniadau a Dehongliad**

1.1 Bydd y diffiniadau canlynol pan fo'r cyd-destun yn caniatáu, yn berthnasol i'r Cytundeb hwn:

| | |
|---|---|
| "Gwybodaeth Gyfrinachol" | heb gyfyngiad, holl ddata, gwybodaeth gyswllt cyflogedigion S4C, manylion unigolion neu gwmnïau sydd yn cysylltu â'r Cwmni yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth, manylion cyflenwyr a chwsmeriaid S4C, manylion arferion gwaith S4C, deunydd ymchwil, gwybodaeth ariannol, allbrintiau cyfrifiadurol, nodiadau, llythyrau, memoranda, adroddiadau, contractau, trwyddedau, cytundebau, eiddo deallusol o unrhyw fath, siartiau, deunyddiau, basau data, a'r holl ddogfennaeth a deunyddiau eraill o natur gyfrinachol sydd yn gysylltiedig â busnes S4C sydd yn cael ei baratoi neu ei ddarparu gan S4C neu unrhyw is-gwmni, cwmni dal neu gwmni cysylltiedig S4C i'r Cwmni, yn unol â'r Pwrpas Perthnasol, neu sy'n cael ei gynhyrchu mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth, os yw'n cael ei ddarparu mewn ffurf ddogfennol neu fel arall ac os oes modd ei storio, ei adfer, manteisio arno neu ei atgynhyrchu yn fecanyddol neu'n electronig a boed cyn, yn ystod neu wedi dyddiad y Cytundeb hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth sydd wedi ei ddynodi'n gyfrinachol gan S4C yn ysgrifenedig neu a ddylid ei ystyried yn gyfrinachol; ac unrhyw wybodaeth cyfrinachol arall y BBC; |
| "Pwrpas Perthnasol" | pwrpas darparu'r Gwasanaethau yn unol â Chytundeb S4C yn unig; |

| | |
|---|---|
| "Cytundeb S4C" | y cytundeb rhwng y Cwmni ac S4C mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau; |
| "Gwasanaethau S4C" | unrhyw sianel, gwasanaeth teledu, gwefan neu "ap" y mae S4C neu unrhyw Gwmni Teulu S4C yn berchen arno yn gyfan gwbl neu'n bennaf, gan gynnwys y gwasanaeth teledu digidol "S4C", y wefan www.s4c.cymru a'r gwasanaeth ar alw "Clic" ar gael ar yr iPhone a'r iPad; a |
| "Y Gwasanaeth" | [nodi enw y gwasanaeth] |

1.2 Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd geiriau sydd yn dynodi'r unigol yn cynnwys y lluosog ac mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir a bydd geiriau sydd yn dynodi un rhyw yn cynnwys pob rhyw a bydd geiriau sydd yn dynodi personau yn cynnwys cyrff corfforaethol, cymdeithasau anghorfforedig a phartneriaethau.

1.3 Defnyddir penawdau y Cymalau yn y Cytundeb hwn er mwyn rhoi arweiniad yn unig, ac ni fwriedir iddynt gyfyngu ar eiriad y cymal mewn unrhyw ffordd.

**2. Dyletswyddau'r Unigolyn**

2.1 Fel amod o ac mewn cydnabyddiaeth am i'r Cwmni ymrwymo i gytundeb cyflogaeth neu gytundeb gwasanaethau (pa bynnag sydd yn briodol) gyda'r Unigolyn, mae'r Unigolyn trwy hyn yn ymrwymo i'r Cwmni:

2.1.1 i gadw'r Wybodaeth Gyfrinachol yn gyfrinachol bob amser oni bai fod S4C yn rhoi cyfarwyddyd ysgrifenedig i'r gwrthwyneb;

2.1.2 i beidio datgelu neu ddefnyddio'r Wybodaeth Gyfrinachol ac i sicrhau na chaiff yr Wybodaeth Gyfrinachol ei datgelu neu ei defnyddio at unrhyw ddiben arall ac eithrio'r Pwrpas Perthnasol;

2.1.3 i sicrhau nad yw'r Unigolyn yn colli rheolaeth dros y Wybodaeth Gyfrinachol;

2.1.4 na fydd yn gwneud nac yn ceisio gwneud, neu'n caniatáu i unrhyw drydydd-parti, i wneud unrhyw ddefnydd neu elw masnachol o'r Wybodaeth Gyfrinachol; ac

2.1.5 i gymryd yr holl gamau rhesymol i sicrhau bod unrhyw grynodebau, nodiadau neu gofnodion a wneir gan yr Unigolyn o unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a ddatgelir trwy hyn yn parhau dan reolaeth effeithiol yr Unigolyn.

2.2 Mae'r Unigolyn yn cytuno na roddir unrhyw hawl neu drwydded iddo/iddi ynghylch yr Wybodaeth Gyfrinachol ac eithrio'r hyn a ddarperir yn eglur yn sgil y Cytundeb hwn.

2.3 Ar gwblhau goblygiadau'r Unigolyn a/neu'r Cwmni mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth, bydd yr Unigolyn yn:

2.3.1 dychwelyd i S4C pob dogfen a deunydd (ac unrhyw gopïau) sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar y Wybodaeth Gyfrinachol;

2.3.2 yn dileu yr holl Wybodaeth Gyfrinachol o systemau cyfrifiadurol a chyfathrebu a dyfeisiadau a ddefnyddir ganddo, gan gynnwys systemau o'r fath a gwasanaethau storio data a ddarperir gan drydydd partïon (i'r graddau sy'n dechnegol ymarferol); ac

2.3.3 yn tystio'n ysgrifenedig ei fod wedi cydymffurfio â gofynion y cymal hwn, ar yr amod y gall yr Unigolyn gadw dogfennau a deunydd sy'n cynnwys, yn adlewyrchu, yn ymgorffori neu'n seiliedig ar y Wybodaeth Gyfrinachol i'r graddau sy'n ofynnol o dan y gyfraith neu unrhyw gorff rheoleiddio perthnasol.

2.4 Mae'r Unigolyn yn cydnabod ac yn cytuno y bydd torri'r dyletswyddau cyfrinachedd a nodir yn y Cytundeb hwn yn cyfateb â chamymddwyn difrifol ac y bydd y Cwmni yn ei ystyried yn dor-amod sylweddol cytundeb cyflogaeth neu gytundeb gwasanaeth (pa bynnag sydd yn briodol) yr Unigolyn gyda'r Cwmni, gan roi'r hawl i'r Cwmni derfynu ei gytundeb gyda'r Unigolyn heb roi rhybudd a heb ddyfarnu unrhyw iawndal, costau neu unrhyw symiau eraill sydd yn daladwy i'r Unigolyn.

**3. Cyfyngiadau**

3.1 Ni fydd Cymal 2 yn berthnasol i Wybodaeth Gyfrinachol:

3.1.1 sydd neu a ddaw yn wybodaeth gyhoeddus trwy unrhyw fodd ar wahân i fai'r Unigolyn neu unrhyw berson sydd wedi derbyn yr Wybodaeth drwy'r Unigolyn (ond er hynny mae'r Unigolyn yn cytuno i beidio â gwneud unrhyw sylw neu i gadarnhau unrhyw ran o'r Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw drydydd parti a ddaw'n wybodaeth gyhoeddus heb ganiatâd ysgrifenedig y Cwmni o flaen llaw); ac/neu

3.1.2 lle y mae gofyn datgelu'r Wybodaeth dwy gyfraith, er hynny os yw'n orfodol ar yr Unigolyn i ddatgelu unrhyw ran o'r Wybodaeth Gyfrinachol i unrhyw drydydd parti, yna bydd yr Unigolyn yn ceisio datgelu cyn lleied o'r Wybodaeth ag sy'n bosib wrth barhau i gydymffurfio ag unrhyw ofynion o'r fath a chytuna'r Unigolyn, i'r graddau y caniateir i'r Unigolyn wneud hynny, i roi rhybudd ysgrifenedig o flaen llaw i'r Cwmni o'r Wybodaeth y mae gofyn ar yr Unigolyn i'w ddatgelu.

3.2 Mae'r Unigolyn yn cydnabod ac yn cytuno bod eiddo teitl a hawlfraint yn y Wybodaeth Gyfrinachol (ynghyd ag unrhyw ddogfennau, eiddo neu eitemau eraill y darparir y Wybodaeth Gyfrinachol arnynt) yn parhau i fod yn eiddo i S4C bob amser.

**4. Ildiad**

Ni fydd methiant neu oedi gan unrhyw barti i'r Cytundeb hwn wrth ymarfer unrhyw hawl, pŵer neu rwymedi y parti hwnnw dan y Cytundeb hwn, yn amharu ar hawl, pŵer neu rwymedi o'r fath dan unrhyw amgylchiadau, ac ni fydd yn gweithredu fel ildiad ohono.

**5. Darpariaethau Cyffredinol**

5.1 Bydd y Cytundeb hwn yn parhau yn weithredol ac mewn grym trwy gydol tymor Cytundeb S4C ac ar bob adeg wedi hynny [am gyfnod o [bum] mlynedd].

5.2 Ni chaiff yr Unigolyn aseinio dyfarniad neu aseinio unrhyw hawl, ymgymeriad neu ddyletswydd trwy hyn heb sicrhau caniatâd ysgrifenedig y Cwmni ymlaen llaw.

DRAFT

5.3 Mae'r Unigolyn trwy hyn yn cytuno y bydd ei ddyletswyddau dan y Cytundeb hwn ac i'r Cwmni yn berthnasol mutatis mutandis i S4C ac y gall S4C orfodi a dibynnu ar y Cytundeb hwn i'r un graddau â phe bai'n barti i'r Cytundeb hwn.

5.4 Nid yw'r Cytundeb hwn yn amharu ar ddarpariaethau unrhyw ymgymeriad neu gytundeb cyfrinachedd arall y gallai'r Unigolyn fod wedi ymrwymo iddo gyda'r Cwmni.

5.5 Os bydd Llys yn gwahardd unrhyw un o ddarpariaethau'r Cytundeb neu'n barnu bod unrhyw un o'r darpariaethau hynny'n anghyfreithlon, yn ddi-rym neu'n un na ellir ei gweithredu, yna bydd cymaint ag sy'n angenrheidiol o'r ddarpariaeth honno'n cael ei dileu o'r Cytundeb a'i gwneud yn aneffeithiol, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl heb newid y ddarpariaeth sydd yn weddill yn y Cytundeb ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw amgylchiadau eraill nac ar ddilysrwydd na gweithredu'r Cytundeb.

5.6 Bydd y Cytundeb hwn yn ddarostyngedig i gyfraith Cymru a Lloegr ac y bydd eu llysoedd ag awdurdodaeth ddigonol drosto.

YN DYST I HYN, caiff y Cytundeb hwn ei arwyddo gan gynrychiolwyr awdurdodedig y partïon ar y dyddiad a'r flwyddyn a nodwyd uchod yn gyntaf.

ARWYDDWYD gan yr Unigolyn ....................................................................

ARWYDDWYD gan y Cwmni .........................................................................

DRAFT

## ATODLEN 7

## CYNLLUN ARGYFWNG

***[I'w gytuno rhwng S4C a'r cynigydd llwyddiannus.]***

DRAFFT

## ATODLEN 8

## PROSESU DATA

**[I'w gwblhau yn dilyn gwobrwyo'r tendr]**

1. Prosesu gan y Cwmni

1.1 Sgôp

1.2 Natur

1.3 Pwrpas y prosesu

1.4 Hyd y prosesu

2. Math o ddata personol

3. Categorïau o oddrych data

DRAFFT